



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 Rhif 1313 (Cy.95)

2005 No. 1313 (W.95)

**PLANT A PHOBL IFANC,
CYMRU**

**CHILDREN AND YOUNG
PERSONS, WALES**

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

**SOCIAL CARE,
WALES**

**Rheoliadau Asiantaethau
Mabwysiadu (Cymru) 2005**

**The Adoption Agencies (Wales)
Regulations 2005**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch asiantaethau mabwysiadu (awdurdodau lleol a chymdeithasau mabwysiadu cofrestredig) sy'n arfer eu swyddogaethau o ran mabwysiadu o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 ("y Ddeddf").

These Regulations make provision relating to the exercise by adoption agencies (local authorities and registered adoption societies) of their functions in relation to adoption under the Adoption and Children Act 2002 ("the Act").

Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth ar gyfer y trefniadau ar gyfer gwaith mabwysiadu y mae'n rhaid i asiantaethau eu sefydlu. Mae rheoliad 3 yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau ffurfio paneli mabwysiadu ac mae rheoliadau 4 a 5 yn gwneud darpariaeth o ran deiliadaeth swydd aelodau panel a gweithdrefnau panel mabwysiadu. Mae rheoliad 8 yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau benodi cynghorydd mabwysiadu i'r panel mabwysiadu.

Part 2 makes provision for the arrangements for adoption work which agencies must put in place. Regulation 3 requires agencies to set up adoption panels and regulations 4 and 5 make provision in relation to the tenure of panel members and the proceedings of adoption panels. Regulation 8 requires agencies to appoint an adoption adviser to the adoption panel.

Mae Rhan 3 yn gymwys pan fydd asiantaeth yn ystyried mabwysiadu ar gyfer y plentyn. Mae rheoliad 12 yn ei gwneud yn ofynnol i'r asiantaeth agor cofnod achos o ran y plentyn a rhoi yn y cofnod hwnnw unrhyw wybodaeth a gafwyd o dan y rheoliadau am y plentyn ac am deulu'r plentyn. Mae rheoliadau 13 a 14 yn ei gwneud yn ofynnol i'r asiantaeth ddarparu cwnsela a gwybodaeth i'r plentyn a rhiant neu warcheidwad y plentyn. Mae rheoliad 14(2) a (3) yn ymdrin â sefyllfa tad nad oes ganddo gyfrifoldeb rhiant am y plentyn. Mae rheoliadau 15 a 16 yn gosod

Part 3 applies where an agency is considering adoption for the child. Regulation 12 requires the agency to open a case record in respect of the child and place on that record any information obtained under the regulations about the child and the child's family. Regulations 13 and 14 require the agency to provide counselling and information for the child and the child's parent or guardian. Regulation 14(2) and (3) deal with the position of the father who does not have parental responsibility for the child. Regulations 15 and 16 impose duties on an agency to obtain

dyletswyddau ar asiantaeth i gael gwybodaeth am y plentyn, teulu'r plentyn ac eraill a bennir yn Atodlen 1. Mae rheoliad 17 yn ei gwneud yn ofynnol i'r asiantaeth baratoi adroddiad ysgrifenedig i'r panel mabwysiadu am y plentyn a theulu'r plentyn, i gynnwys dadansoddiad sy'n dangos pam mai lleoliad ar gyfer mabwysiadu yw'r hoff ddewis o ran sefydlogrwydd. Mae rheoliad 18 yn darparu bod yn rhaid i'r panel mabwysiadu wneud argymhelliad i'r asiantaeth p'un a ddylid lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu. Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu ystyried yr argymhelliad hwnnw wrth ddod i benderfyniad ynghylch a ddylid lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu (rheoliad 19). Mae rheoliad 20 yn darparu y gall yr asiantaeth ofyn am swyddog achosion teuluol ar gyfer Cymru i gael ei benodi i dystio i gydsyniad ar gyfer lleoliad o dan adran 19 o'r Ddeddf ac, yn ôl y digwydd, i wneud gorchymyn mabwysiadu yn y dyfodol o dan adran 20 o'r Ddeddf. Pennir yr wybodaeth sydd i'w darparu i'r swyddog achosion teuluol ar gyfer Cymru yn Atodlen 2.

Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer asesu darpar fabwysiadwyr. Mae rheoliad 21 yn ei gwneud yn ofynnol i'r asiantaeth ddarparu cwnsela a gwybodaeth ar gyfer darpar fabwysiadwydd. Mae rheoliad 23 yn ei gwneud yn ofynnol i'r asiantaeth gyflawni gwiriadau heddlu ac mae'n darparu na chaiff asiantaeth ystyried person yn addas i fod yn rhiant mabwysiadol os yw'r person neu unrhyw aelod o'i aelwyd 18 oed neu drosodd wedi'i gollfarnu o unrhyw dramgwydd benodedig (fel y'i diffinnir yn rheoliad 23(3)) neu os cafodd rybudd yn ei chylch. Mae rheoliad 26 yn gosod y gweithdrefnau ar gyfer gwneud asesiad o'r darpar fabwysiadwydd. Nodir yr wybodaeth sydd i'w chael o ran darpar fabwysiadwydd yn Atodlen 4. Rhaid paratoi adroddiad a rhaid cyflwyno'r papurau i'r panel mabwysiadu a fydd yn gwneud argymhelliad i'r asiantaeth p'un a yw'r darpar fabwysiadwydd yn addas i fod yn rhiant mabwysiadol. Rhaid i'r asiantaeth ystyried yr argymhelliad hwnnw wrth ddod i benderfyniad ynghylch a yw'r darpar fabwysiadwydd yn addas i fod yn rhiant mabwysiadol (rheoliadau 27 a 28). Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth o ran dyletswyddau'r asiantaeth fabwysiadu o ran lleoli plentyn gyda darpar fabwysiadwydd. Rhaid i'r asiantaeth roi i'r darpar fabwysiadwydd adroddiad am y plentyn a rhaid i'r adroddiad gynnwys yr wybodaeth a nodir yn Atodlen 5 ac unrhyw wybodaeth arall y mae'r asiantaeth yn ystyried ei bod yn berthnasol (rheoliad 32). Cyfeirir y papurau at y panel mabwysiadu a rhaid iddo ystyried y lleoliad arfaethedig a gwneud argymhelliad i'r asiantaeth ynghylch a fyddai'r darpar fabwysiadwydd penodol yn addas fel rhiant mabwysiadol ar gyfer y plentyn penodol hwnnw a rhaid i'r asiantaeth gymryd yr argymhelliad hwnnw i ystyriaeth wrth ddod i benderfyniad (rheoliadau 33 a 34).

Mae Rhan 6 yn gwneud darpariaeth o ran lleoliadau ac adolygiadau. Mae rheoliad 36 yn darparu bod yn rhaid i'r asiantaeth roi cynllun lleoliad i'r darpar

information about the child, the child's family and others which is specified in Schedule 1. Regulation 17 requires the agency to prepare a written report for the adoption panel about the child and the child's family, to include an analysis of why placement for adoption is the preferred option for permanence. Regulation 18 provides that the adoption panel must make a recommendation to the agency as to whether the child should be placed for adoption. The agency must take into account that recommendation in coming to a decision about whether the child should be placed for adoption (regulation 19). Regulation 20 provides for the agency to request a Welsh family proceedings officer to be appointed to witness consent to placement under section 19 of the Act and, as the case may be, to the making of a future adoption order under section 20 of the Act. The information to be provided to the Welsh family proceedings officer is specified in Schedule 2.

Part 4 makes provision for the assessment of prospective adopters. Regulation 21 requires the agency to provide counselling and information for a prospective adopter. Regulation 23 requires the agency to carry out police checks and provides that an agency may not consider a person suitable to be an adoptive parent if the person or any member of their household aged 18 or over has been convicted of, or cautioned for, any specified offences (as defined in regulation 23(3)). Regulation 26 sets out the procedure for carrying out an assessment of the prospective adopter. The information to be obtained in respect of a prospective adopter is set out in Schedule 4. A report must be prepared and the papers submitted to the adoption panel which makes a recommendation to the agency as to whether the prospective adopter is suitable to be an adoptive parent. The agency must take into account that recommendation in coming to a decision about whether the prospective adopter is suitable to be an adoptive parent (regulations 27 and 28). Part 5 makes provision in relation to the duties of the adoption agency in respect of the placement of a child with prospective adopters. The agency must provide the prospective adopters with a report about the child which must include the information which is set out in Schedule 5 and any other information which the agency consider relevant (regulation 32). The papers are referred to the adoption panel who must consider the proposed placement and make a recommendation to the agency as to whether the particular prospective adopter would be a suitable adoptive parent for that particular child and the agency must take into account that recommendation when coming to its decision (regulations 33 and 34).

Part 6 makes provision in relation to placements and reviews. Regulation 36 provides that the agency must provide the prospective adopter with a placement plan

fabwysiadu (a rhaid iddo ymdrin â'r materion a bennir yn Atodlen 6) a chyn i'r plentyn gael ei leoli ar gyfer mabwysiadu rhaid anfon gwybodaeth benodol at y personau a bennir yn rheoliad 36(4) a threfnu i'r darpar fabwysiadu gyfarfod â'r plentyn ac yn dilyn y cyfarfod hwnnw rhaid i'r asiantaeth gwrsela'r darpar fabwysiadu a (phan fydd yn ymarferol) y plentyn (rheoliad 36(6)). Mae rheoliad 37 yn gosod dyletswydd ar yr asiantaeth i gyflawni adolygiadau ar achosion plant. Mae rheoliad 39 yn gosod dyletswydd ar asiantaeth i adolygu ei phenderfyniad ar unwaith ar leoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu os bydd rhiant yn tynnu ei gydsyniad yn ôl o dan adran 19 neu adrannau 19 a 20 o'r Ddeddf.

Mae Rhan 7 yn gwneud darpariaeth o ran cofnodion.

Mae Rhan 8 yn gwneud darpariaethau amrywiol gan gynnwys addasiadau i ddarpariaethau yn y Ddeddf Plant yn achos plant yr awdurdodir asiantaethau mabwysiadu eu lleoli ar gyfer eu mabwysiadu ac o ran y camau sydd i'w cymryd pan fydd asiantaeth yn penderfynu gwrthod caniatáu cyswllt o dan adran 27(2) o'r Ddeddf.

Mae Rhan 9 yn gwneud darpariaethau amrywiol.

(which must cover the matters specified in Schedule 6) and before the child is placed for adoption send certain information to the persons specified in regulation 36 (4) and arrange for the prospective adopter to meet the child and following that meeting counsel the prospective adopter and (where practicable) the child (regulation 36(6)). Regulation 37 imposes a duty on the agency to carry out reviews of children's cases. Regulation 39 places an agency under a duty to immediately review its decision to place a child for adoption where a parent withdraws their consent under section 19 or sections 19 and 20 of the Act.

Part 7 makes provision in relation to records.

Part 8 makes miscellaneous provisions including modifications to provisions in the Children Act in the case of children whom adoption agencies are authorised to place for adoption and in relation to the steps to be taken where an agency decides to refuse to allow contact under section 27(2) of the Act.

Part 9 makes miscellaneous provisions.

2005 Rhif 1313 (Cy.95)

2005 No. 1313 (W.95)

**PLANT A PHOBL IFANC,
CYMRU**

**CHILDREN AND YOUNG
PERSONS, WALES**

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

**SOCIAL CARE,
WALES**

Rheoliadau Asiantaethau
Mabwysiadu (Cymru) 2005

The Adoption Agencies (Wales)
Regulations 2005

Wedi'u gwneud 10 Mai 2005
Yn dod i rym 30 Rhagfyr 2005

Made 10 May 2005
Coming into force 30 December 2005

TREFN Y RHEOLIADAU

ARRANGEMENT OF REGULATIONS

RHAN 1

PART 1

CYFFREDINOL

GENERAL

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Dehongli

1. Citation, commencement and application
2. Interpretation

RHAN 2

PART 2

ASiantaeth Fabwysiadu - Trefniadau
ar Gyfer Gwaith Mabwysiadu

ADOPTION AGENCY - ARRANGEMENTS FOR
ADOPTION WORK

3. Sefydlu panel mabwysiadu
4. Deiliadaeth swydd aelodau'r panel mabwysiadu
5. Cyfarfodydd panel mabwysiadu
6. Talu ffioedd - cadeirydd neu berson annibynnol ar banel mabwysiadu awdurdod lleol
7. Trefniadau asiantaeth fabwysiadu ar gyfer gwaith mabwysiadu
8. Gofyniad i benodi cynghorydd asiantaeth i'r panel mabwysiadu
9. Gofyniad i benodi cynghorydd meddygol
10. Sefydlu paneli mabwysiadu newydd ar 30 Rhagfyr 2005

3. Establishment of adoption panel
4. Tenure of office of members of the adoption panel
5. Meetings of adoption panel
6. Payment of fees - chair or independent person on local authority adoption panel
7. Adoption agency arrangements for adoption work
8. Requirement to appoint an agency adviser to the adoption panel
9. Requirement to appoint a medical adviser
10. Establishment of new adoption panels on 30 December 2005

RHAN 3

DYLETSWYDDAU ASiantaeth FABWYSIADU OS YW'R ASiantaeth YN YSTYRIED MABWYSIADU AR GYFER PLENTYN

11. Cymhwyso rheoliadau 11 i 20
12. Gofyniad i ddechrau cofnod achos i blentyn
13. Gofyniad i ddarparu cwnsela a gwybodaeth ar gyfer y plentyn a chanfod ei ddymuniadau a'i deimladau
14. Gofyniad i ddarparu cwnsela a gwybodaeth ar gyfer rhiant neu warcheidwad y plentyn neu bobl eraill a chanfod eu dymuniadau a'u teimladau
15. Gofyniad i gael gwybodaeth am y plentyn (gan gynnwys gwybodaeth am ei iechyd)
16. Gofyniad i gael gwybodaeth am deulu'r plentyn (gan gynnwys gwybodaeth am iechyd y teulu)
17. Gofyniad i baratoi adroddiad ysgrifenedig ar gyfer y panel mabwysiadu
18. Swyddogaeth y panel mabwysiadu o ran plentyn a atgyfeirir gan yr asiantaeth fabwysiadu
19. Penderfyniad a hysbysiad gan yr asiantaeth fabwysiadu
20. Cais i benodi swyddog achosion teuluol ar gyfer Cymru neu swyddog o CAF/CASS

RHAN 4

DYLETSWYDDAU ASiantaeth FABWYSIADU O RAN DARPAR FABWYSIADYDD

21. Gofyniad i ddarparu cwnsela a gwybodaeth
22. Gofyniad i ystyried cais am asesiad o addasrwydd i fabwysiadu plentyn
23. Gofyniad i wneud gwiriadau gyda'r heddlu
24. Gofyniad i hysbysu
25. Gofyniad i ddarparu paratoad ar gyfer mabwysiadu
26. Gweithdrefnau o ran gwneud asesiad
27. Swyddogaeth y panel mabwysiadu
28. Penderfyniad a hysbysiad gan yr asiantaeth fabwysiadu
29. Gwybodaeth sydd i'w hanfon at y panel adolygu annibynnol
30. Adolygiadau a therfynu cymeradwyaeth
31. Dyletswyddau asiantaeth fabwysiadu mewn achos adran 83 yn dilyn cymeradwyaeth o ddarpar fabwysiadydd

PART 3

DUTIES OF ADOPTION AGENCY WHERE THE AGENCY IS CONSIDERING ADOPTION FOR A CHILD

11. Application of regulations 11 to 20
12. Requirement to open child's case record
13. Requirement to provide counselling and information for, and ascertain the wishes and feelings of, the child
14. Requirement to provide counselling and information for, and ascertain the wishes and feelings of, the parent or guardian of the child and others
15. Requirement to obtain information (including health information) about the child
16. Requirement to obtain information (including health information) about the child's family
17. Requirement to prepare a written report for the adoption panel
18. Function of the adoption panel in relation to a child referred by the adoption agency
19. Adoption agency decision and notification
20. Request to appoint a Welsh family proceedings officer or an officer of CAF/CASS

PART 4

DUTIES OF ADOPTION AGENCY IN RESPECT OF A PROSPECTIVE ADOPTER

21. Requirement to provide counselling and information
22. Requirement to consider application for an assessment of suitability to adopt a child
23. Requirement to carry out police checks
24. Requirement to notify
25. Requirement to provide preparation for adoption
26. Procedure in respect of carrying out an assessment
27. Function of the adoption panel
28. Adoption agency decision and notification
29. Information to be sent to the independent review panel
30. Reviews and termination of approval
31. Duties of the adoption agency in a section 83 case following approval of prospective adopter

RHAN 5

DYLETSWYDDAU'R ASIANTAETH FABWYSIADU O RAN LLEOLIAD ARFAETHEDIG PLENTYN GYDA DARPAR FABWYSIADWYR

32. Y lleoliad arfaethedig
33. Swyddogaeth y panel mabwysiadu o ran lleoliad arfaethedig
34. Penderfyniad yr asiantaeth fabwysiadu o ran y lleoliad arfaethedig
35. Swyddogaeth yr asiantaeth fabwysiadu mewn achos adran 83

RHAN 6

LLEOLIADAU AC ADOLYGIADAU

36. Gofynion a osodir ar yr asiantaeth fabwysiadu cyn y lleolir y plentyn ar gyfer ei fabwysiadu gyda darpar fabwysiadwydd
37. Adolygiadau
38. Swyddogion adolygu annibynnol
39. Tynnu cydsyniad yn ôl

RHAN 7

COFNODION

40. Storio cofnodion achos
41. Cadw cofnodion achos
42. Cyfrinachedd cofnodion achos
43. Mynediad at gofnodion achos a datgelu gwybodaeth
44. Trosglwyddo cofnodion achos
45. Cymhwyso rheoliadau 41 i 43

PART 5

DUTIES OF ADOPTION AGENCY IN RESPECT OF PROPOSED PLACEMENT OF CHILD WITH PROSPECTIVE ADOPTERS

32. Proposed placement
33. Function of the adoption panel in relation to proposed placement
34. Adoption agency's decision in relation to the proposed placement
35. Function of the adoption agency in a section 83 case

PART 6

PLACEMENTS AND REVIEWS

36. Requirements imposed on the adoption agency before the child is placed for adoption with prospective adopter
37. Reviews
38. Independent reviewing officers
39. Withdrawal of consent

PART 7

RECORDS

40. Storage of case records
41. Preservation of case records
42. Confidentiality of case records
43. Access to case records and disclosure of information
44. Transfer of case records
45. Application of regulations 41 to 43

RHAN 8
AMRYWIOL

46. Addasu Deddf 1989 o ran mabwysiadu
47. Cyswllt
48. Dirymu

YR ATODLENNI

- Atodlen 1 -
Rhan 1 - Gwybodaeth am y plentyn
Rhan 2 - Materion i'w cynnwys yn adroddiad ar iechyd y plentyn
Rhan 3 - Gwybodaeth am deulu'r plentyn ac eraill
Rhan 4 - Manylion ynghylch gwarcheidwad
Rhan 5 - Manylion ynghylch iechyd rhieni a brodyr a chwiorydd naturiol y plentyn
Atodlen 2 - Gwybodaeth a Dogfennau i'w darparu i swyddog achosion teuluol ar gyfer Cymru neu swyddog o CAF/CASS
Atodlen 3 -
Rhan 1 - Tramgwyddau a bennir at ddibenion rheoliad 23(3)
Rhan 2 - Tramgwyddau statudol a ddiddymwyd
Atodlen 4 -
Rhan 1 - Gwybodaeth am y darpar fabwysiadydd
Rhan 2 - Gwybodaeth am iechyd y darpar fabwysiadydd
Atodlen 5 - Gwybodaeth am y plentyn i'w rhoi i ddarpar fabwysiadydd
Atodlen 6 - Cynllun lleoliad
Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 26(1) i (2B), 59(4)(a) a (5) a 104(4) o Ddeddf Plant 1989(1) ac adrannau 9(1)(a), 11(1)(b), 27(3), , 45(1) a (2), 53, 54 a 140(7) ac (8) a 142(4) a (5) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(2) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

PART 8
MISCELLANEOUS

46. Modification of the 1989 Act in relation to adoption
47. Contact
48. Revocation

SCHEDULES

- Schedule 1 -
Part 1 - Information about the child
Part 2 - Matters to be included in the child's health report
Part 3 - Information about the child's family and others
Part 4 - Particulars relating to a guardian
Part 5 - Particulars relating to the health of the child's natural parents and brothers and sisters
Schedule 2 - Information and Documents to be provided to Welsh family proceedings officer or an officer of CAF/CASS
Schedule 3 -
Part 1 - Offences specified for the purposes of regulation 23(3)
Part 2 - Repealed statutory offences
Schedule 4 -
Part 1 - Information about prospective adopter
Part 2 - Information about the health of the prospective adopter
Schedule 5 - Information about the child to be given to the prospective adopter
Schedule 6 - Placement plan
The National Assembly for Wales in exercise of the powers conferred by sections 26(1) to (2B), 59(4)(a) and (5) and 104(4) of the Children Act 1989(1) and sections 9(1)(a), 11(1)(b), 27(3), 45(1) and (2), 53, 54 and 140(7) and (8) and 142(4) and (5) of the Adoption and Children Act 2002(2) hereby makes the following Regulations:

(1) 1989 p.41.
(2) 2002 p.38.

(1) 1989 c.41.
(2) 2002 c.38.

RHAN 1
CYFFREDINOL

PART 1
GENERAL

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 30 Rhagfyr 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn -

ystyr "achos adran 83" ("*section 83 case*") yw achos lle bo person yn bwriadu dod â phlentyn, neu'n peri bod rhywun arall yn dod â phlentyn, i'r Deyrnas Unedig mewn amgylchiadau lle y mae adran 83 o'r Ddeddf (cyfyngiadau ar ddod â phlant i'r Deyrnas Unedig) yn gymwys;

mae i "asiantaeth fabwysiadu" yr ystyr a roddir i "adoption agency" yn adran 2(1) o'r Ddeddf;

ystyr "awdurdod cofrestru" ("*registration authority*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru(1);

ystyr "awdurdod tramor perthnasol" ("*relevant foreign authority*") yw person, sydd y tu allan i Ynysoedd Prydain yn cyflawni swyddogaethau yn y wlad lle y mae'r plentyn, neu yn lle y mae'r darpar fabwysiadydd yn preswyllo'n arferol, sy'n cyfateb i swyddogaethau asiantaeth fabwysiadu neu i swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o ran mabwysiadu ag elfen dramor iddynt;

ystyr "CAFCASS" yw y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd(2);

yn y rheoliadau hyn, mae'r termau "cyflogi" a "chyflogaeth" yn cynnwys cyflogi person p'un ai am dâl neu beidio a boed o dan gontract gwasanaeth, contract ar gyfer gwasanaethau neu mewn modd nad yw o dan gontract;

mae i "cymdeithas fabwysiadu gofrestredig" yr ystyr a roddir i "registered adoption society" yn adran 2(2) o'r Ddeddf;

mae i "cynghorydd asiantaeth" ("*agency adviser*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 8;

ystyr "cynghorydd meddygol" ("*medical adviser*") yw'r person a benodwyd yn gynghorydd meddygol gan yr asiantaeth fabwysiadu yn unol â rheoliad 9;

Citation, commencement and application

1.-(1) These Regulations may be cited as the Adoption Agencies (Wales) Regulations 2005 and come into force on 30 December 2005.

(2) These Regulations apply to Wales.

Interpretation

2.- In these Regulations -

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Adoption and Children Act 2002;

"the 1989 Act" ("*Deddf 1989*") means the Children Act 1989;

"adoption agency" ("*asiantaeth fabwysiadu*") has the meaning given in section 2(1) of the Act ;

"adoption panel" ("*panel mabwysiadu*") means a panel established in accordance with regulation 3;

"adoption placement plan" ("*cynllun lleoliad mabwysiadu*") has the meaning given in regulation 36;

"adoption service" ("*gwasanaeth mabwysiadu*") has the meaning given in section 2(1) of the Act;

"adoption support services" ("*gwasanaethau cymorth mabwysiadu*") has the meaning given in section 2(6) of the Act and in regulations made under section 2(6)(b) of the Act;

"agency adviser" ("*cynghorydd asiantaeth*") has the meaning given in regulation 8;

"CAFCASS" means the Children and Family Court Advisory and Support Service(1);

"employed" ("*cyflogi/cyflogaeth*") in these regulations includes employment under a contract of service or a contract for services, or otherwise than under a contract and whether or not for payment;

"independent person " ("*person annibynnol*") in relation to an adoption panel has the meaning given in regulation 3;

"independent review panel" ("*panel adolygu annibynnol*") means the panel constituted under section 12 of the Act;

(1) *Gweler* adran 5 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p.14).

(2) *Gweler* adran 11 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000 p.43.

(1) *See* section 11 of the Criminal Justice and Court Services Act 2000 c.43.

mae i "cynllun lleoliad" ("*placement plan*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 36(2);

mae i "cynllun lleoliad mabwysiadu" ("*adoption placement plan*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 36;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Deddf 1989" ("*the 1989 Act*") yw Deddf Plant 1989;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn Ddydd Nadolig, yn Ddydd Gwener y Groglith nac yn wyl y banc o fewn ystyr Deddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(1).

mae i "dyfarniad o gymhwyster" ("*qualifying determination*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 28(4)(a);

mae i "gwasanaethau cymorth mabwysiadu" ("*adoption support services*") yr ystyr a roddir yn adran 2(6) o'r Ddeddf ac mewn rheoliadau a wneir o dan adran 2(6)(b) o'r Ddeddf;

Mae i "gwasanaeth mabwysiadu" yr ystyr a roddir i "adoption service" gan adran 2(1) o'r Ddeddf;

ystyr "gweithiwr cymdeithasol" ("*social worker*") yw person a gofrestrwyd mewn cofrestr a gynhelir gan Gyngor Gofal Cymru neu'r Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol o dan adran 56 o Ddeddf Safonau Gofal 2000(2) neu mewn cofrestr gyfatebol a gynhelir o dan gyfraith yr Alban neu Ogledd Iwerddon;

ystyr "hysbysu" ("*notify*") yw hysbysu yn ysgrifenedig;

mae i "lleoliad arfaethedig" ("*proposed placement*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 32(1);

ystyr "panel adolygu annibynnol" ("*independent review panel*") yw panel a ffurfiwyd o dan adran 12 o'r Ddeddf;

ystyr "panel mabwysiadu" ("*adoption panel*") yw panel a sefydlwyd yn unol â rheoliad 3;

ystyr "panel mabwysiadu ar y cyd" ("*joint adoption panel*") yw panel a sefydlwyd yn unol â rheoliad 3(5);

mae i "person annibynnol" ("*independent person*") o ran panel mabwysiadu yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 3;

"joint adoption panel" ("*panel mabwysiadu ar y cyd*") means an adoption panel established in accordance with regulation 3(5);

"medical adviser" ("*cyngorydd meddygol*") means the person appointed as the medical adviser by the adoption agency in accordance with regulation 9;

"National Assembly" ("*Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales;

"notify" ("*hysbysu*") means notify in writing;

"parent" ("*rhiant*") means, in relation to a child, any parent who has parental responsibility for the child under the 1989 Act;

"placement plan" ("*cynllun lleoliad*") has the meaning given in regulation 36(2);

"proposed placement" ("*lleoliad arfaethedig*") has the meaning given in regulation 32(1);

"qualifying determination" ("*dyfarniad cymwys*") has the meaning given in regulation 28(4)(a);

"registered adoption society" ("*cymdeithas fabwysiadu gofrestredig*") has the meaning given in section 2(2) of the Act;

"registration authority" ("*awdurdod cofrestru*") means the National Assembly for Wales(1);

"relevant foreign authority" ("*awdurdod tramor perthnasol*") means a person, outside the British Islands performing functions in the country in which the child is, or in which the prospective adopter is habitually resident, which correspond to the functions of an adoption agency or to the functions of the Secretary of State in respect of adoptions with a foreign element;

"section 83 case" ("*achos adran 83*") means a case where a person intends to bring, or to cause another to bring, a child into the United Kingdom in circumstances where section 83 of the Act (restrictions on bringing children into the United Kingdom) applies;

"social worker" ("*gweithiwr cymdeithasol*") means a person who is registered as a social worker in a register maintained by the Care Council for Wales or the General Social Care Council under section 56 of the Care Standards Act 2000(2) or in a corresponding register maintained under the law of Scotland or Northern Ireland;

"social services functions" ("*swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol*") has the meaning given in section 1A of the Local Authority Social Services Act 1970;

(1) 1971 p.80.

(2) 2000 p.14.

(1) See section 5 of the Care Standards Act 2000 c.14.

(2) 2000 c.14.

ystyr "rhiant" ("*parent*"), mewn perthynas â phlentyn, yw unrhyw riant sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn o dan Ddeddf 1989.

mae i "swyddog achosion teuluol ar gyfer Cymru" yr ystyr a roddir i "Welsh family proceedings officer" yn adran 35(4) o Ddeddf Plant 2004 (1); ac

mae i "swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol" yr ystyr a roddir i "social services functions" yn adran 1A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970.

"Welsh family proceedings officer" ("*swyddog achosion teuluol ar gyfer Cymru*") has the meaning given in section 35(4) of the Children Act 2004 (1); and

"working day" ("*diwrnod gwaith*") means any day other than a Saturday, Sunday, Christmas day, Good Friday or a day which is a bank holiday within the meaning of the Banking and Financial Dealings Act 1971(2).

(1) 2004 p.31.

(1) 2004 c.31.

(2) 1971 c.80.

RHAN 2
ASiantaeth Fabwysiadu -
TREFNIADAU AR GYFER GWAITH
MABWYSIADU

Sefydlu panel mabwysiadu

3.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu sefydlu o leiaf un panel, a elwir y panel mabwysiadu, yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu benodi person i gadeirio'r panel, sef person na fu'n aelod etholedig, ymddiriedolwr, cyfarwyddwr neu'n gyflogai o'r asiantaeth o fewn y 12 mis diwethaf, sydd â'r sgiliau a'r profiad sy'n angenrheidiol ar gyfer cadeirio'r panel mabwysiadu.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), rhaid bod dim mwy na deg aelod i'r panel mabwysiadu, gan gynnwys y person a benodwyd o dan baragraff (2), a rhaid iddo gynnwys -

- (a) dau weithiwr cymdeithasol;
- (b) yn achos cymdeithas fabwysiadu gofrestredig, person sy'n gyfarwyddwr, rheolwr neu'n swyddog arall o'r asiantaeth sy'n ymwneud â rheolaeth yr asiantaeth;
- (c) yn achos awdurdod lleol, un aelod etholedig o'r awdurdod;
- (ch) y person a benodwyd fel cynghorydd meddygol i'r asiantaeth yn unol â rheoliad 9, (neu un ohonynt os penodwyd mwy nag un cynghorydd meddygol), tra pery'r person hwnnw'n gynghorydd meddygol;
- (d) o leiaf dri pherson arall (y cyfeirir atynt yn y rheoliad hwn fel "personau annibynnol") gan gynnwys lle y bo'n rhesymol ymarferol o leiaf ddau berson â phrofiad personol o fabwysiadu.

(4) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu benodi dau o aelodau'r panel mabwysiadu y bydd y naill neu'r llall yn gweithredu fel cadeirydd os yw'r person a benodwyd i gadeirio'r panel yn absennol neu os yw ei swydd yn wag ("yr is-gadeirydd").

(5) Caniateir sefydlu'r panel mabwysiadu ar y cyd gan unrhyw ddau awdurdod lleol ond dim mwy na thri awdurdod lleol ("panel mabwysiadu ar y cyd") ac os sefydlir panel mabwysiadu ar y cyd-

- (a) mwyafswm nifer y personau y gellir eu penodi i'r panel hwnnw yw un ar ddeg;
- (b) rhaid i bob awdurdod lleol benodi dau berson i'r panel, y mae'n rhaid i un ohonynt fod yn weithiwr cymdeithasol a rhaid i'r llall fod yn aelod etholedig o'r awdurdod hwnnw;
- (c) drwy gytundeb rhwng yr awdurdodau lleol rhaid penodi-
 - (i) person i gadeirio'r panel nad yw'n aelod etholedig o unrhyw un o'r awdurdodau

PART 2
ADOPTION AGENCY -
ARRANGEMENTS FOR ADOPTION
WORK

Establishment of adoption panel

3.-(1) Subject to paragraph (5), the adoption agency must establish at least one panel, to be known as the adoption panel, in accordance with this regulation.

(2) The adoption agency must appoint to chair the panel a person, not being a person who has been an elected member, trustee, director or employee of the agency within the last 12 months, who has the skills and experience necessary for chairing the adoption panel.

(3) Subject to paragraph (5), the adoption panel must consist of no more than ten members, including the person appointed under paragraph (2), and must include -

- (a) two social workers;
- (b) in the case of a registered adoption society a person who is a director, manager or other officer of the agency and is concerned in the management of the agency;
- (c) in the case of a local authority, one elected member of the authority;
- (d) the person appointed as the medical adviser to the agency in accordance with regulation 9, (or one of them if more than one medical adviser is appointed), for so long as that person is the medical adviser;
- (e) at least three other persons (in this regulation referred to as "independent persons") including where reasonably practicable at least two persons with personal experience of adoption.

(4) The adoption agency must appoint two members of the adoption panel either of whom will act as chair if the person appointed to chair the panel is absent or their office is vacant ("the vice chair").

(5) The adoption panel may be established jointly by any two but not more than three local authorities ("joint adoption panel") and where a joint adoption panel is established-

- (a) the maximum number of persons who may be appointed to that panel is eleven;
- (b) each local authority must appoint two persons to the panel, one of whom must be a social worker and the other who must be an elected member of that authority;
- (c) by agreement between the local authorities there must be appointed -
 - (i) a person to chair the panel who is not an elected member of any of the local

lleol sy'n gyfrifol am y panel ac y mae ganddo'r sgiliau a'r profiad sy'n angenrheidiol i gadeiro'r panel mabwysiadu;

- (ii) o leiaf dri aelod annibynnol gan gynnwys lle y bo'n rhesymol ymarferol o leiaf ddau berson â phrofiad personol o fabwysiadu;
- (iii) dau o aelodau'r panel y bydd y naill neu'r llall yn gweithredu fel cadeirydd os yw'r person a benodwyd i gadeirio'r panel yn absennol neu os yw ei swydd yn wag ("yr is-gadeirydd").
- (iv) cynghorydd meddygol i un o'r awdurdodau.

(6) Rhaid peidio â phenodi person yn berson annibynnol ar banel mabwysiadu os yw'r person hwnnw-

- (a) yn cael ei gyflogi neu wedi cael ei gyflogi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf -
 - (i) yn achos cymdeithas fabwysiadu gofrestredig, gan yr asiantaeth honno; neu
 - (ii) yn achos awdurdod lleol, gan yr awdurdod hwnnw i gyflawni unrhyw swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod hwnnw;
- (b) yn aelod etholedig neu wedi bod yn aelod etholedig o'r awdurdod hwnnw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf;
- (c) yn ymddiriedolwr neu wedi bod yn ymddiriedolwr yn achos cymdeithas fabwysiadu gofrestredig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf neu os yw wedi ymwneud â rheolaeth yr asiantaeth honno;
- (ch) yn rhiant mabwysiadol y mae'r asiantaeth wedi lleoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu gydag ef neu berson y mae'r asiantaeth wedi ei gymeradwyo yn berson addas i fod yn rhiant mabwysiadol onid oes o leiaf ddwy flynedd wedi mynd heibio ers i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei wneud ynglyn â'r plentyn;
- (d) os yw'n perthyn-
 - (i) yn achos cymdeithas fabwysiadu gofrestredig, i berson a gyflogir gan yr asiantaeth honno; neu
 - (ii) yn achos awdurdod lleol, i berson a gyflogir gan yr awdurdod hwnnw i gyflawni unrhyw un o swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod hwnnw.

(7) At ddibenion paragraff (6)(d) mae person ("person A") yn perthyn i berson arall ("person B") os yw person A -

- (a) yn aelod o aelwyd person B neu'n briod â pherson B neu'n bartner sifil i berson B;
- (b) yn fab, merch, mam, tad, chwaer neu frawd i berson B; neu

authorities whose panel it is and who has the skills and experience necessary for chairing the adoption panel;

- (ii) at least three independent members including where reasonably practicable at least two persons with personal experience of adoption;
- (iii) two members of the panel either of whom will act as chair if the person appointed to chair the panel is absent or their office is vacant ("the vice chair").
- (iv) the medical adviser to one of the authorities.

(6) A person must not be appointed as an independent person on the adoption panel if that person-

- (a) is or has been within the last year employed -
 - (i) in the case of a registered adoption society, by that agency; or
 - (ii) in the case of a local authority, by that authority to carry out any of the social services functions of that authority;
- (b) is or has been within the last year in the case of a local authority an elected member of that authority;
- (c) is or has been within the last year in the case of a registered adoption society a trustee or concerned in the management of that agency;
- (d) is an adoptive parent with whom the agency has placed a child for adoption or whom the agency have approved as suitable to be an adoptive parent unless at least two years have elapsed since the adoption order was made in respect of the child;
- (e) is related -
 - (i) in the case of a registered adoption society, to a person employed by that agency ; or
 - (ii) in the case of a local authority, to a person employed by that authority to carry out any of the social services functions of that authority.

(7) For the purposes of paragraph (6)(e) a person ("person A") is related to another person ("person B") if person A is -

- (a) a member of the household of, or married to or the civil partner of, person B;
- (b) the son, daughter, mother, father, sister or brother of person B; or

- (c) yn fab, merch, mam, tad, chwaer neu frawd i'r person sy'n briod â pherson B neu'n bartner sifil i berson B.

- (c) the son, daughter, mother, father, sister or brother of the person to whom person B is married or with whom B has formed a civil partnership.

Deiliadaeth swydd aelodau'r panel mabwysiadu

4.-(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau y rheoliad hwn a rheoliad 10, rhaid i aelod o'r panel mabwysiadu beidio â dal swydd am gyfnod hirach na 5 mlynedd, ac ni chaiff ddal swydd ar banel mabwysiadu yr un asiantaeth fabwysiadu am fwy na dau gyfnod yn olynol heb gael bwlch yn y cyfamser am gyfnod o dair blynedd o leiaf.

(2) Rhaid i'r aelod sy'n gynghorydd meddygol y panel mabwysiadu ddal swydd ond cyhyd â'r cyfnod y'i penodwyd o dan reoliad 9.

(3) Caiff aelod o'r panel mabwysiadu ymddiswyddo ar unrhyw adeg drwy roi mis o hysbysiad ysgrifenedig i'r asiantaeth fabwysiadu.

(4) Os yw'r asiantaeth fabwysiadu o'r farn bod unrhyw aelod o'r panel mabwysiadu yn anaddas neu'n analluog i barhau yn y swydd, gellir terfynu swydd yr aelod hwnnw ar unrhyw adeg drwy roi hysbysiad ysgrifenedig iddo ynghyd â rhesymau.

(5) Rhaid i derfyniad penodiad aelod o banel mabwysiadu ar y cyd o dan baragraff (4) gael cytundeb yr holl awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am y panel.

Cyfarfodydd panel mabwysiadu

5.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), ni chynhelir unrhyw fusnes gan y panel mabwysiadu onid yw o leiaf bump o'i aelodau, gan gynnwys y person a benodwyd i gadeirio'r panel neu un o'r is-gadeiryddion, ac o leiaf un o'r gweithwyr cymdeithasol ac o leiaf un o'r personau annibynnol, yn cyfarfod fel y panel.

(2) Yn achos panel mabwysiadu ar y cyd, ni chynhelir unrhyw fusnes ganddo onid yw o leiaf chwech o'i aelodau, gan gynnwys y person a benodwyd i gadeirio'r panel neu un o'r is-gadeiryddion, ac o leiaf un gweithiwr cymdeithasol ac o leiaf un o'r personau annibynnol, yn cyfarfod fel y panel.

(3) Rhaid i'r panel mabwysiadu wneud cofnod ysgrifenedig o'i drafodion, ei argymhellion a'r rhesymau dros ei argymhellion.

Talu ffioedd - cadeirydd neu berson annibynnol ar banel mabwysiadu awdurdod lleol

6. Caiff awdurdod lleol dalu i berson a benodwyd yn gadeirydd ei banel mabwysiadu neu ei banel mabwysiadu ar y cyd neu i unrhyw berson annibynnol ar y panel, unrhyw ffi a benderfynir gan yr awdurdod lleol hwnnw, sef ffi sydd yn swm rhesymol.

Tenure of office of members of the adoption panel

4.-(1) Subject to the provisions of this regulation and regulation 10, a member of the adoption panel must not hold office for a term exceeding 5 years, and may not hold office for the adoption panel of the same adoption agency for more than two consecutive terms without an intervening period of at least three years.

(2) The medical adviser member of the adoption panel must hold office only for so long as their appointment under regulation 9.

(3) A member of the adoption panel may resign office at any time by giving one month's notice in writing to the adoption agency.

(4) Where the adoption agency is of the opinion that any member of the adoption panel is unsuitable or unable to remain in office, their office may be terminated at any time by giving that member notice in writing with reasons.

(5) Termination of the appointment of a member of a joint adoption panel under paragraph (4) must have the agreement of all the local authorities whose panel it is.

Meetings of adoption panel

5.-(1) Subject to paragraph (2), no business is to be conducted by the adoption panel unless at least five of its members, including the person appointed to chair the panel or one of the vice chairs, and at least one of the social workers and at least one of the independent persons, meet as the panel.

(2) In the case of a joint adoption panel, no business is to be conducted unless at least six of its members, including the person appointed to chair the panel or one of the vice chairs, and at least one social worker, and at least one of the independent persons, meet as the panel.

(3) The adoption panel must make a written record of its proceedings, its recommendations and the reason for its recommendations.

Payment of fees - chair or independent person on local authority adoption panel

6. A local authority may pay to a person appointed to chair, or to any independent person on, their adoption panel or joint adoption panel such fee as that local authority may determine, being a fee of a reasonable amount.

Trefniadau asiantaeth fabwysiadu ar gyfer gwaith mabwysiadu

7. Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu, drwy ymgynghori â'r panel mabwysiadu ac, i'r graddau a bennir yn rheoliad 9(2), â chynghorydd meddygol yr asiantaeth, baratoi a gweithredu polisi ysgrifenedig a chyfarwyddiadau gweithdrefnol sy'n llywodraethu sut yr arferir swyddogaethau'r asiantaeth a'r panel o ran mabwysiadu, a rhaid i'r asiantaeth adolygu'r cyfarwyddiadau hynny yn gyson a, phan fydd yn briodol, eu diwygio.

Gofyniad i benodi cynghorydd asiantaeth i'r panel mabwysiadu

8. Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu benodi uwch aelod o staff, neu yn achos panel mabwysiadu ar y cyd rhaid i'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am y panel drwy gytundeb benodi uwch aelod o staff o un o'r awdurdodau lleol hynny, (i'w alw'n "cynghorydd yr asiantaeth") gyda'r cymwysterau, y sgiliau a'r profiad y mae'r asiantaeth yn ystyried eu bod yn briodol -

- (a) i gynorthwyo'r asiantaeth wrth benodi (gan gynnwys ailbenodi), terfynu ac adolygu penodi aelodau o'r panel mabwysiadu;
- (b) i fod yn gyfrifol am gynefino a hyfforddi aelodau o'r panel mabwysiadu;
- (c) i fod yn gyfrifol am weinyddu'r panel mabwysiadu, gan gynnwys cynorthwyo gyda chydlynu rhwng yr asiantaeth a'r panel mabwysiadu a monitro perfformiad aelodau o'r panel mabwysiadu; ac
- (ch) i roi'r cyfryw gyngor i'r panel mabwysiadu y gall y panel ofyn amdano o ran unrhyw achos neu yn gyffredinol.

Gofyniad i benodi cynghorydd meddygol

9.-(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu benodi o leiaf un ymarferydd meddygol cofrestredig yn gynghorydd meddygol yr asiantaeth.

(2) Rhaid ymgynghori â chynghorydd meddygol yr asiantaeth fabwysiadu o ran trefniadau ar gyfer gweld a datgelu gwybodaeth am iechyd, sydd yn ofynnol neu a ganiateir yn rhinwedd y Rheoliadau hyn.

Sefydlu paneli mabwysiadu newydd ar 30 Rhagfyr 2005

10.-(1) Bydd holl aelodau panel mabwysiadu a sefydlwyd cyn 30 Rhagfyr 2005 (y cyfeirir ato yn y rheoliad hwn fel yr "hen banel mabwysiadu") yn peidio â dal swydd ar y dyddiad hwnnw.

Adoption agency arrangements for adoption work

7. The adoption agency must, in consultation with the adoption panel and, to the extent specified in regulation 9(2), with the agency's medical adviser, prepare and implement written policy and procedural instructions governing the exercise of the agency's and the panel's functions in relation to adoption and such instructions must be kept under review and, where appropriate, revised by the agency.

Requirement to appoint an agency adviser to the adoption panel

8. The adoption agency must appoint a senior member of staff, or in the case of a joint adoption panel the local authorities whose panel it is must by agreement appoint a senior member of staff of one of them, (to be known as the "agency adviser") with such qualifications, skills and experience as the agency considers appropriate -

- (a) to assist the agency with the appointment (including re-appointment), termination and review of appointment of members of the adoption panel;
- (b) to be responsible for the induction and training of members of the adoption panel;
- (c) to be responsible for the administration of the adoption panel including assisting with liaison between the agency and the adoption panel and monitoring the performance of members of the adoption panel; and
- (d) to give such advice to the adoption panel as the panel may request in relation to any case or generally.

Requirement to appoint a medical adviser

9.-(1) The adoption agency must appoint at least one registered medical practitioner to be the agency's medical adviser.

(2) The adoption agency's medical adviser must be consulted in relation to the arrangements for, access to, and disclosure of, health information which is required or permitted by virtue of these Regulations.

Establishment of new adoption panels on 30 December 2005

10.-(1) All members of an adoption panel established before 30 December 2005 (referred to in this regulation as the "old adoption panel") will cease to hold office on that date.

(2) Gydag effaith o 30 Rhagfyr 2005 ymlaen, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu sefydlu panel mabwysiadu newydd yn unol â rheoliadau 3 a 4.

(3) Pan fydd aelod o hen banel mabwysiadu yn peidio â dal swydd o dan baragraff (1) a ph'un a estynwyd cyfnod swydd yr aelod hwnnw gan yr asiantaeth fabwysiadu yn unol â rheoliad 5A(1A) o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 1983(1) neu mewn unrhyw achos arall, caniateir penodi'r aelod hwnnw yn aelod o banel mabwysiadu newydd o'r un asiantaeth fabwysiadu ac eithrio na chaiff cyfnod ei swydd ar y panel mabwysiadu newydd fod yn hirach na'r hyn a ganiateir gan reoliad 4 gan gyfrif y cyfnod y mae eisoes wedi gwasanaethu fel aelod o'r hen banel mabwysiadu.

(2) With effect from 30 December 2005, the adoption agency must establish a new adoption panel in accordance with regulations 3 and 4.

(3) Where a member of an old adoption panel ceases to hold office under paragraph (1) and whether that member's term of office was extended by the adoption agency in accordance with regulation 5A(1A) of the Adoption Agencies Regulations 1983(1) or in any other case, that member may be appointed as a member of a new adoption panel of the same adoption agency save that their term of office on the new adoption panel must not exceed that permitted by regulation 4 taking account of the term they have already served as a member of the old adoption panel.

(1) O.S.1983/1964. Mewnosodwyd rheoliad 5A(1A) gan Reoliadau Mabwysiadu (Asiantaethau) 2003 (O.S. 2003/3223).

(1) S.I.1983/1964. Regulation 5A(1A) was inserted by the Adoption (Agencies) Regulations 2003 (S.I. 2003/3223).

RHAN 3

DYLETSWYDDAU ASiantaETH FABWYSIADU OS YW'R ASiantaETH YN YSTYRIED MABWYSIADU AR GYFER PLENTYN

Cymhwysiad rheoliadau 11 i 20

11. Mae rheoliadau 11 i 20 yn gymwys pan fydd asiantaeth fabwysiadu yn ystyried mabwysiadu ar gyfer plentyn.

Gofyniad i ddechrau cofnod achos i blentyn

12.-(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu drefnu cofnod achos o ran y plentyn a rhoi ynddo unrhyw wybodaeth a gafwyd ac unrhyw adroddiad, argymhelliad neu benderfyniad a wnaed yn rhinwedd y Rheoliadau hyn.

- (2) Os yw'r plentyn-
- (a) yn derbyn gofal; neu
 - (b) yn cael llety o dan adran 59(1) o Ddeddf 1989 (darparu llety gan gyrrff gwirfoddol),

rhaid i'r awdurdod lleol neu, yn ôl y digwydd, y gymdeithas fabwysiadu gofrestredig gael gafael ar unrhyw wybodaeth y mae angen cael gafael arni gan yr asiantaeth yn rhinwedd y Rhan hon, o'r cofnodion a gynhelir mewn cysylltiad â'r plentyn o dan Ddeddf 1989, a rhoi'r wybodaeth honno yn y cofnod achos y cyfeirir ato ym mharagraff (1).

Gofyniad i ddarparu cwnsela a gwybodaeth ar gyfer y plentyn a chanfod ei ddymuniadau a'i deimladau.

13.-(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol ac yng ngoleuni oedran a dealltwriaeth y plentyn-

- (a) darparu gwasanaeth cwnsela ar gyfer y plentyn;
- (b) esbonio i'r plentyn mewn modd priodol y weithdrefn ynglyn â'i fabwysiadu, a goblygiadau cyfreithiol ei fabwysiadu, a rhoi'r wybodaeth ysgrifenedig briodol i'r plentyn ynglyn â'r materion hyn; ac
- (c) canfod dymuniadau a theimladau'r plentyn o ran-
 - (i) posibilrwydd lleoliad gyda theulu newydd a'i fabwysiadu;
 - (ii) ei fagwraeth grefyddol a diwylliannol; a
 - (iii) cyswllt â'i riant, ei warcheidwad, perthynas neu berson arwyddocaol arall.

PART 3

DUTIES OF ADOPTION AGENCY WHERE THE AGENCY IS CONSIDERING ADOPTION FOR A CHILD

Application of regulations 11 to 20

11. Regulations 11 to 20 apply where the adoption agency is considering adoption for a child.

Requirement to open child's case record

12.-(1) The adoption agency must set up a case record in respect of the child and place on it any information obtained and any report, recommendation or decision made by virtue of these Regulations.

- (2) Where the child -
- (a) is looked after; or
 - (b) is provided with accommodation under section 59(1) of the 1989 Act (provision of accommodation by voluntary organisations),

the local authority or, as the case may be, the registered adoption society must obtain any information which is required to be obtained by the agency by virtue of this Part, from the records maintained with respect to the child under the 1989 Act, and place that information on the case record referred to in paragraph (1).

Requirement to provide counselling and information for, and ascertain the wishes and feelings of, the child

13.-(1) The adoption agency must, so far as is reasonably practicable and in the light of the child's age and understanding-

- (a) provide a counselling service for the child;
- (b) explain to the child in an appropriate manner the procedure in relation to, and the legal implications of, their adoption and provide the child with appropriate written information about these matters; and
- (c) ascertain the child's wishes and feelings in relation to-
 - (i) the possibility of placement with a new family and their adoption;
 - (ii) their religious and cultural upbringing; and
 - (iii) contact with their parent, guardian, relative or other significant person.

Gofyniad i ddarparu cwnsela a gwybodaeth ar gyfer rhiant neu warcheidwad y plentyn neu bobl eraill a chanfod eu dymuniadau a'u teimladau.

14.-(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol -

- (a) darparu gwasanaeth cwnsela i riant neu warcheidwad y plentyn;
- (b) esbonio a darparu gwybodaeth ysgrifenedig i riant neu warcheidwad y plentyn ar y materion canlynol-
 - (i) y weithdrefn o ran mabwysiadu a lleoliad ar gyfer mabwysiadu a;
 - (ii) goblygiadau cyfreithiol -
 - (aa) cydsynio i leoliad ar gyfer mabwysiadu o dan adran 19 o'r Ddeddf (lleoli plant gyda chydysyniad rhiant);
 - (bb) cydsynio i wneud gorchymyn mabwysiadu yn y dyfodol o dan adran 20 o'r Ddeddf (cydsyniad ymlaen llaw i fabwysiadu);
 - (cc) gorchymyn lleoliad; a
 - (iii) goblygiadau cyfreithiol mabwysiadu; ac
- (c) canfod dymuniadau a theimladau rhiant neu warcheidwad y plentyn neu unrhyw berson arall y mae'r asiantaeth yn ystyried ei fod yn berthnasol o ran y canlynol-
 - (i) y materion a nodir yn adran 1(4)(f)(ii) a (iii) o'r Ddeddf (materion y mae'n rhaid i'r asiantaeth eu hystyried);
 - (ii) lleoliad y plentyn ar gyfer mabwysiadu a'i fabwysiadu gan gynnwys unrhyw ddymuniadau a theimladau ynghylch magwraeth grefyddol a diwylliannol y plentyn; a
 - (iii) cyswllt â'r plentyn os awdurdodwyd yr asiantaeth i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu neu os mabwysiedir y plentyn.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan nad oes gan dad plentyn gyfrifoldeb rhiant am y plentyn ac mae'r asiantaeth yn gwybod pwy yw'r tad.

(3) Os yw paragraff (2) yn gymwys a bod yr asiantaeth fabwysiadu wedi'i bodloni ei bod yn briodol gwneud hynny, rhaid i'r asiantaeth-

- (a) cyflawni o ran y tad ofynion paragraff (1)(a), (b)(i), a (iii) ac (c) fel pe baent yn gymwys i'r tad, a
- (b) canfod i'r graddau y mae'n bosibl p'un a yw'r tad-
 - (i) yn dymuno cael cyfrifoldeb rhiant am y plentyn o dan adran 4 o Ddeddf 1989) (caffael cyfrifoldeb rhiant)(1); neu

Requirement to provide counselling and information for, and ascertain the wishes and feelings of, the parent or guardian of the child and others -

14.-(1) The adoption agency must, so far as is reasonably practicable -

- (a) provide a counselling service for the parent or guardian of the child;
- (b) explain and provide written information to the child's parent or guardian on the following matters-
 - (i) the procedure in relation to both placement for adoption and adoption;
 - (ii) the legal implications of-
 - (aa) giving consent to placement for adoption under section 19 of the Act (placing children with parental consent);
 - (bb) giving consent to the making of a future adoption order under section 20 of the Act (advance consent to adoption);
 - (cc) a placement order; and
 - (iii) the legal implications of adoption; and
- (c) ascertain the wishes and feelings of the parent or guardian of the child and of any other significant person the agency considers relevant in relation to -
 - (i) the matters set out in section 1(4)(f)(ii) and (iii) of the Act (matters the agency must have regard to);
 - (ii) the placement of the child for adoption and their adoption, including any wishes and feelings about the child's religious and cultural upbringing; and
 - (iii) contact with the child if the agency is authorised to place the child for adoption or the child is adopted.

(2) This paragraph applies where the father of a child does not have parental responsibility for the child and the father's identity is known to the agency.

(3) Where paragraph (2) applies and the adoption agency is satisfied it is appropriate to do so the agency must-

- (a) carry out in respect of the father the requirements of paragraph (1)(a), (b)(i), and (iii) and (c) as if they applied to the father and
- (b) ascertain so far as possible whether the father-
 - (i) wishes to acquire parental responsibility for the child under section 4 of the 1989 Act (acquisition of parental responsibility)(1); or

(1) Diwygiwyd adran 4 gan adran 111 o'r Ddeddf.

(1) Section 4 was amended by section 111 of the Act.

- (ii) yn bwriadu gwneud cais am orchymyn preswyllo neu orchymyn cyswllt ynglyn â'r plentyn o dan adran 8 o Ddeddf 1989 (preswyllyad, cyswllt a gorchmynion eraill ynglyn â phlant) neu lle y bo plentyn yn ddarostyngedig i orchymyn gofal, gorchymyn o dan adran 34 o Ddeddf 1989 (cyswllt rhiant â phlant mewn gofal).

Gofyniad i gael gwybodaeth am y plentyn (gan gynnwys gwybodaeth am ei iechyd)

15.-(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, gael gafael ar yr wybodaeth am y plentyn a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 1.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu -

- (a) gwneud trefniadau i'r plentyn gael ei archwilio gan ymarferydd meddygol cofrestredig; a
- (b) cael adroddiad ysgrifenedig gan yr ymarferydd hwnnw ar gyflwr iechyd y plentyn a rhaid iddo gynnwys unrhyw driniaeth y mae'r plentyn yn ei chael, anghenion y plentyn am ofal iechyd a'r materion a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 1,

oni chafodd yr asiantaeth gyngor gan y cynghorydd meddygol nad oes angen yr archwiliad a'r adroddiad hwnnw.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu wneud trefniadau -

- (a) bod archwiliadau meddygol a seiciatryddol eraill, a phroffion eraill, yn cael eu cyflawni ar y plentyn yn ôl argymhelliad cynghorydd meddygol yr asiantaeth; a
- (b) cael gafael ar adroddiadau ysgrifenedig o'r archwiliadau a'r profion hynny.

(4) Nid yw paragraffau (2) a (3) yn gymwys os yw'r plentyn yn deall digon i wneud penderfyniad seiliedig ar wybodaeth ac yn gwrthod cael archwiliadau neu broffion eraill.

Gofyniad i gael gwybodaeth am deulu'r plentyn (gan gynnwys gwybodaeth am iechyd y teulu)

16.-(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, gael gafael ar yr wybodaeth am deulu'r plentyn a bennir yn Rhannau 3 a 4 o Atodlen 1.

(2) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, gael gafael ar yr wybodaeth am iechyd pob un o rieni a brodyr a chwiorydd naturiol y plentyn a bennir yn Rhan 5 o Atodlen 1.

- (ii) intends to apply for a residence order or contact order with respect to the child under section 8 of the 1989 Act (residence, contact and other orders with respect to children) or where the child is subject to a care order, an order under section 34 of the 1989 Act (parental contact with children in care).

Requirement to obtain information (including health information) about the child

15.-(1) The adoption agency must, so far as is reasonably practicable, obtain the information about the child which is specified in Part 1 of Schedule 1.

(2) Subject to paragraph (4), the adoption agency must -

- (a) make arrangements for the child to be examined by a registered medical practitioner; and
- (b) obtain from that practitioner a written report on the state of the child's health which must include any treatment which the child is receiving, the child's needs for health care and the matters specified in Part 2 of Schedule 1,

unless the agency has received advice from the medical adviser that such an examination and report is unnecessary.

(3) Subject to paragraph (4), the adoption agency must make arrangements -

- (a) for such other medical and psychiatric examinations of, and other tests on, the child to be carried out as are recommended by the agency's medical adviser; and
- (b) to obtain written reports of such examinations and tests.

(4) Paragraphs (2) and (3) do not apply if the child is of sufficient understanding to make an informed decision and refuses to submit to the examinations or other tests.

Requirement to obtain information (including health information) about the child's family

16.-(1) The adoption agency must, so far as is reasonably practicable, obtain the information about the child's family which is specified in Parts 3 and 4 of Schedule 1.

(2) The adoption agency must, so far as is reasonably practicable, obtain the information about the health of each of the child's natural parents and brothers and sisters which is specified in Part 5 of Schedule 1.

Gofyniad i baratoi adroddiad ysgrifenedig ar gyfer y panel mabwysiadu

17.-(1) Os bydd yr asiantaeth fabwysiadu yn ystyried yn ngoleuni'r holl wybodaeth a gafwyd yn rhinwedd rheoliadau 12 i 16 mai mabwysiadu yw'r dewis gorau er mwyn sefydlogrwydd ar gyfer y plentyn, rhaid i'r asiantaeth baratoi adroddiad ysgrifenedig a rhaid iddo gynnwys -

- (a) yr wybodaeth am y plentyn a theulu'r plentyn a bennir yn Rhannau 1, 3 a 4 o Atodlen 1;
- (b) crynodeb, a ysgrifenydd gan gynghorydd meddygol yr asiantaeth, o gyflwr iechyd y plentyn, hanes ei iechyd ac unrhyw angen am ofal iechyd a all godi yn y dyfodol;
- (c) dymuniadau a theimladau'r plentyn ynglyn â'r materion a nodir yn rheoliad 13(1)(c);
- (ch) dymuniadau a theimladau rhiant neu warcheidwad y plentyn, a phan fo rheoliad 14(2) yn gymwys, tad y plentyn, ac unrhyw berson arall y mae'r asiantaeth yn ystyried ei fod yn berthnasol, ynghylch y materion a nodir yn rheoliad 14(1)(c);
- (d) barn yr asiantaeth fabwysiadu am angen y plentyn o ran cyswllt â'i riant neu ei warcheidwad neu berthynas arall neu ag unrhyw berson arall y mae'r asiantaeth yn ystyried ei fod yn berthnasol (gan gynnwys tad y plentyn pan fo rheoliad 14(2) yn gymwys) a'r trefniadau y mae'r asiantaeth yn bwriadu eu gwneud i ganiatáu cyswllt â'r plentyn i unrhyw berson;
- (dd) asesiad o ddatblygiad emosiynol y plentyn a datblygiad ei ymddygiad ac unrhyw anghenion cysylltiedig;
- (e) asesiad o gynneddf rhiant neu warcheidwad y plentyn i fod yn rhiant, ac os yw rheoliad 14(2) yn gymwys, ei dad;
- (f) cronoleg o'r penderfyniadau a'r camau a gymerwyd gan yr asiantaeth ynglyn â'r plentyn;
- (ff) dadansoddiad o'r opsiynau am ofal y plentyn yn y dyfodol a gafodd eu hystyried gan yr asiantaeth a pham yr ystyrir mai lleoliad ar gyfer mabwysiadu yw'r dewis gorau; a
- (g) unrhyw wybodaeth berthnasol arall y mae'r asiantaeth yn ystyried ei bod yn berthnasol.

(2) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu anfon yr adroddiad ysgrifenedig ynghyd â'r adroddiadau eraill y mae eu hangen yn rhinwedd rheoliad 15 a 16 at y panel mabwysiadu.

(3) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gael gafael ar unrhyw wybodaeth berthnasol arall, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, y gall y panel mabwysiadu ofyn amdani ac anfon yr wybodaeth honno at y panel.

Requirement to prepare a written report for the adoption panel

17.-(1) Where the adoption agency consider in light of all the information obtained by virtue of regulations 12 to 16 that adoption is the preferred option for permanence for the child, the agency must prepare a written report which must include -

- (a) the information about the child and the child's family as specified in Parts 1, 3 and 4 of Schedule 1;
- (b) a summary, written by the agency's medical adviser, of the child's state of health, the child's health history and any need for health care which might arise in the future;
- (c) the wishes and feelings of the child regarding the matters set out in regulation 13(1)(c);
- (d) the wishes and feelings of the child's parent or guardian, and where regulation 14(2) applies, the child's father, and any other person the agency considers relevant, regarding the matters set out in regulation 14(1)(c);
- (e) the views of the agency about the child's need for contact with the child's parent or guardian or other relative or with any other person the agency considers relevant (including the child's father where regulation 14(2) applies) and the arrangements the agency proposes to make for allowing any person contact with the child;
- (f) an assessment of the child's emotional and behavioural development and any related needs;
- (g) an assessment of the parenting capacity of the child's parent or guardian, and if regulation 14(2) applies, the child's father;
- (h) a chronology of the decisions and actions taken by the agency with respect to the child;
- (i) an analysis of the options for the future care of the child which have been considered by the agency and why placement for adoption is considered the preferred option; and
- (j) any other information which the agency considers relevant.

(2) The adoption agency must send the written report together with the other reports required by virtue of regulations 15 and 16 to the adoption panel.

(3) The adoption agency must obtain, so far as is reasonably practicable, any other relevant information which may be requested by the adoption panel and send that information to the panel.

Swyddogaeth y panel mabwysiadu o ran plentyn a atgyfeirir gan yr asiantaeth fabwysiadu

18.-(1) Rhaid i'r panel mabwysiadu ystyried achos pob plentyn a gaiff ei atgyfeirio ato gan yr asiantaeth fabwysiadu a gwneud argymhelliad i'r asiantaeth honno ynghylch a ddylid lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu.

(2) Wrth ystyried pa argymhelliad i'w wneud, rhaid i'r panel mabwysiadu roi sylw i'r dyletswyddau a osodwyd ar yr asiantaeth fabwysiadu o dan adran 1(2), (4), (5) a (6) o'r Ddeddf (ystyriaethau sy'n gymwys wrth arfer pwerau o ran mabwysiadu plentyn) a -

- (a) rhaid iddo bwysu a mesur a chymryd i ystyriaeth yr holl wybodaeth a'r adroddiadau a ddaeth iddo yn unol â rheoliad 17;
- (b) caiff ofyn i'r asiantaeth gael gafael ar unrhyw wybodaeth berthnasol arall y mae'r panel yn ystyried ei bod yn angenrheidiol;
- (c) rhaid iddo gael cyngor cyfreithiol yr ystyria sy'n angenrheidiol o ran yr achos.

(3) Pan fo'r panel mabwysiadu yn gwneud argymhelliad i'r asiantaeth fabwysiadu y dylid lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu rhaid iddo ystyried a chaiff ar yr un pryd roi cyngor i'r asiantaeth ynghylch -

- (a) y trefniadau y mae'r asiantaeth yn bwriadu eu gwneud er mwyn caniatáu cyswllt â'r plentyn i unrhyw berson;
- (b) os yw'r asiantaeth fabwysiadu yn awdurdod lleol, a ddylid gwneud cais am orchymyn lleoliad ynglyn â'r plentyn.

Penderfyniad a hysbysiad gan yr asiantaeth fabwysiadu

19.-(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu -

- (a) ystyried argymhelliad y panel mabwysiadu;
- (b) ystyried unrhyw gyngor a roddir gan y panel mabwysiadu yn unol â rheoliad 18(3); ac
- (c) rhoi sylw i'r ystyriaeth a nodir yn adran 1(2) o'r Ddeddf

wrth benderfynu a ddylid lleoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu.

(2) Nid oes unrhyw aelod o'r panel mabwysiadu i gymryd rhan yn unrhyw benderfyniad a wneir gan yr asiantaeth fabwysiadu o dan baragraff (1).

(3) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu, os yw eu cyfeiriad yn hysbys i'r asiantaeth, hysbysu ei phenderfyniad yn ysgrifenedig a ddylid lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu neu unrhyw benderfyniad ynglyn â threfniadau cyswllt i-

- (a) rhiant neu warcheidwad y plentyn;
- (b) unrhyw berthynas neu berson arwyddocaol

Function of the adoption panel in relation to a child referred by the adoption agency

18.-(1) The adoption panel must consider the case of every child referred to it by the adoption agency and make a recommendation to that agency as to whether the child should be placed for adoption.

(2) In considering what recommendation to make the adoption panel must have regard to the duties imposed on the adoption agency under section 1(2), (4), (5) and (6) of the Act (considerations applying to the exercise of powers in relation to the adoption of a child) and -

- (a) must consider and take into account all the information and reports passed to it in accordance with regulation 17;
- (b) may request the agency to obtain any other relevant information which the panel considers necessary;
- (c) must obtain legal advice as it considers necessary in relation to the case.

(3) Where the adoption panel make a recommendation to the adoption agency that the child should be placed for adoption it must consider and may at the same time give advice to the agency about -

- (a) the arrangements the agency proposes to make for allowing any person contact with the child;
- (b) where the adoption agency is a local authority, whether an application should be made for a placement order in respect of the child.

Adoption agency decision and notification

19.-(1) The adoption agency must -

- (a) take into account the recommendation of the adoption panel;
- (b) take into account any advice given by the adoption panel in accordance with regulation 18(3); and
- (c) have regard to the consideration set out in section 1(2) of the Act

in coming to a decision about whether the child should be placed for adoption.

(2) No member of the adoption panel may take part in any decision made by the adoption agency under paragraph (1).

(3) The adoption agency must, if their whereabouts are known to the agency, notify its decision about whether the child should be placed for adoption and any decision in relation to contact arrangements in writing to-

- (a) the parent or guardian of the child;
- (b) any relative or other significant person whom

arall yr ymgynghorodd yr asiantaeth ag ef o dan reoliad 14(1) gan gynnwys unrhyw berson y gall fod gorchymyn cyswllt ganddo o dan adran 8 o Ddeddf 1989 neu orchymyn o dan adran 34 o Ddeddf 1989 (cyswllt rhiant â phlant mewn gofal) mewn grym yn union cyn yr awdurdodir yr asiantaeth i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu; ac

- (c) os yw rheoliad 14(2) yn gymwys, tad y plentyn; ac
- (ch) rhaid i'r asiantaeth esbonio ei phenderfyniad i'r plentyn mewn modd priodol ac yng ngoleuni oedran a dealltwriaeth y plentyn.

(4) Oni wnaed cais y gellid gwneud gorchymyn gofal o ran y plentyn, nas penderfynwyd arno, neu os yw'r plentyn yn llai na 6 wythnos oed, rhaid i'r asiantaeth ganfod a yw rhiant neu warcheidwad y plentyn yn barod-

- (a) i gydsynio o dan adran 19 o'r Ddeddf (lleoli plant gyda chydysyniad rhiant) i'r plentyn gael ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu gyda darpar fabwysiadwyr a enwir yn y cydsyniad neu iddo gael ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu gydag unrhyw ddarpar fabwysiadwyr y caiff yr asiantaeth eu dewis; a
- (b) ar yr un adeg i gydsynio i wneud gorchymyn mabwysiadu yn y dyfodol o dan adran 20 o'r Ddeddf (cydsynio ymlaen llaw i fabwysiadu).

(5) Pan fydd rhiant neu warcheidwad y plentyn yn barod i gydsynio i wneud gorchymyn mabwysiadu yn y dyfodol o dan adran 20 o'r Ddeddf, rhaid i'r asiantaeth esbonio a chadarnhau yn ysgrifenedig i riant neu warcheidwad y plentyn -

- (a) y gellir tynnu unrhyw gydsyniad a roddir o dan adran 20 o'r Ddeddf yn ôl ond bydd y tynnu'n ôl hwnnw yn aneffeithiol os gwneir hynny ar ôl i gais am orchymyn mabwysiadu gael ei wneud;
- (b) drwy roi hysbysiad i'r asiantaeth caiff, ar yr adeg honno neu rywbryd wedyn, ddatgan nad yw'n dymuno cael ei hysbysu o unrhyw gais am orchymyn mabwysiadu; ac
- (c) caniateir tynnu'r cyfryw ddatganiad yn ôl.

Cais i benodi swyddog achosion teuluol ar gyfer Cymru neu swyddog o CAF/CASS

20.-(1) Pan fydd rhiant neu warcheidwad y plentyn yn barod i gydsynio i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu o dan adran 19 o'r Ddeddf (lleoli plant gyda chydysyniad rhiant) ac, yn ôl y digwydd, yn barod i gydsynio i wneud gorchymyn mabwysiadu yn y dyfodol o dan adran 20 o'r Ddeddf (cydsyniad ymlaen llaw i fabwysiadu), rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu ofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol benodi un o'i swyddogion achosion teuluol ar gyfer Cymru(1) neu, pan fydd y plentyn yn arferol yn preswyllo yn Lloegr, ofyn i CAF/CASS benodi un o'i swyddogion er mwyn

(1) *Gweler* adran 35(4) o Ddeddf Plant 2004 p.31.

the agency consulted under regulation 14(1) including any person in whose favour a contact order under section 8 of the 1989 Act or an order under section 34 of the 1989 Act (parental contact with children in care) may be in force immediately before the agency is authorised to place the child for adoption; and

- (c) where regulation 14(2) applies, the father; and
- (d) the agency must in an appropriate manner and in the light of the child's age and understanding explain its decision to the child.

(4) Unless either an application has been made on which a care order might be made in respect of the child which has not been disposed of, or the child is less than 6 weeks old, the agency must ascertain whether the parent or guardian of the child is prepared -

- (a) to consent under section 19 of the Act (placing children with parental consent) to the child being placed for adoption with prospective adopters identified in the consent or being placed for adoption with any prospective adopters who may be chosen by the agency; and
- (b) at the same time to consent to the making of a future adoption order under section 20 of the Act (advance consent to adoption).

(5) Where the parent or guardian of the child is prepared to consent to the making of a future adoption order under section 20 of the Act, the agency must explain and confirm in writing to the parent or guardian of the child that -

- (a) any consent given under section 20 of the Act may be withdrawn but that the withdrawal of consent is ineffective if it is given after an application for an adoption order is made;
- (b) notice given to the agency may at the same or any subsequent time state their wish not to be informed of any application for an adoption order; and
- (c) such a statement may be withdrawn.

Request to appoint a Welsh family proceedings officer or an officer of CAF/CASS

20.-(1) Where the parent or guardian of the child is prepared to consent to the placement of the child for adoption under section 19 of the Act (placing children with parental consent) and, as the case may be, to consent to the making of a future adoption order under section 20 of the Act (advance consent to adoption), the adoption agency must request the National Assembly to appoint one of its Welsh family proceedings officers(1) or, where the child is ordinarily resident in England, the CAF/CASS to appoint one of its officers for the purposes of their signification of the consent to

(1) *See* section 35(4) of the Children Act 2004 c. 31.

iddo gymeradwyo'r cydsyniad i'r lleoli neu i'r mabwysiadu ac, wrth ofyn, anfon hefyd yr wybodaeth a bennir yn Atodlen 2.

(2) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu o ran y plentyn gadw'r canlynol yn y cofnod achos a gynhelir yn unol â rheoliad 12 -

- (a) y ffurflen gydsynio wedi'i llofnodi'n briodol gan y rhiant neu'r gwarcheidwad a swyddog achosion teuluol ar gyfer Cymru neu swyddog o CAF/CASS yn dyst i hynny;
- (b) unrhyw hysbysiad a roddir i'r asiantaeth o dan adran 20(4)(a) o'r Ddeddf (datganiad na ddymunir cael hysbysiad o unrhyw gais am orchymyn mabwysiadu); ac
- (c) hysbysiad tynnu'n ôl unrhyw gydsyniad neu ddatganiad a roddwyd o dan adrannau 19 neu 20 o'r Ddeddf.

RHAN 4

DYLETSWYDDAU ASiantAETH FABWYSIADU O RAN DARPAR FABWYSIADYDD

Gofyniad i ddarparu cwnsela a wybodaeth

21. Pan fydd yr asiantaeth fabwysiadu yn ystyried a yw person yn addas i fabwysiadu plentyn, rhaid i'r asiantaeth -

- (a) darparu gwasanaeth cwnsela ar gyfer y darpar fabwysiadydd;
- (b) mewn achos adran 83, esbonio i'r darpar fabwysiadydd y weithdrefn o ran mabwysiadu plentyn o'r wlad y mae'r darpar fabwysiadydd yn dymuno mabwysiadu ohoni a goblygiadau cyfreithiol gwneud hynny;
- (c) mewn unrhyw achos arall esbonio i'r darpar fabwysiadydd y weithdrefn o ran lleoli ar gyfer mabwysiadu (gan gynnwys lleoliad drwy gydsyniad o dan adran 19 o'r Ddeddf, cydsyniad i wneud gorchymyn mabwysiadu yn y dyfodol o dan adran 20 o'r Ddeddf, cyfyngu cyfrifoldeb rhiant a gorchmynion lleoliad) a mabwysiadu a goblygiadau cyfreithiol gwneud hynny; a
- (ch) rhoi gwybodaeth ysgrifenedig i'r darpar fabwysiadydd ynglyn â'r materion y cyfeirir atynt yn is-baragraff (b) neu, yn ôl y digwydd, (c).

placement or adoption and send with that request the information specified in Schedule 2.

(2) The adoption agency must keep on the case record with respect to the child maintained in accordance with regulation 12 -

- (a) the consent form duly signed by the parent or guardian and witnessed by the Welsh family proceedings officer or the officer of CAF/CASS;
- (b) any notice given to the agency under section 20(4)(a) of the Act (statement of a wish not to be informed of any application for an adoption order); and
- (c) the withdrawal of any consent or statement given under sections 19 or 20 of the Act.

PART 4

DUTIES OF ADOPTION AGENCY IN RESPECT OF A PROSPECTIVE ADOPTER

Requirement to provide counselling and information

21. Where the adoption agency is considering a person's suitability to adopt a child, the agency must -

- (a) provide a counselling service for the prospective adopter;
- (b) in a section 83 case, explain to the prospective adopter the procedure in relation to, and the legal implications of, adopting a child from the country from which the prospective adopter wishes to adopt;
- (c) in any other case explain to the prospective adopter the procedure in relation to, and the legal implications of, placement for adoption (including placement by consent under section 19 of the Act, consent to the making of a future adoption order under section 20 of the Act, restriction of parental responsibility and placement orders) and adoption; and
- (d) provide the prospective adopter with written information about the matters referred to in sub-paragraph (b) or, as the case may be, (c).

Gofyniad i ystyried cais am asesiad o addasrwydd i fabwysiadu plentyn

22.-(1) Pan fydd yr asiantaeth fabwysiadu, yn dilyn y gweithdrefnau y cyfeirir atynt yn rheoliad 21, yn cael cais ysgrifenedig oddi wrth ddarpar fabwysiadu am asesiad o'i addasrwydd i fabwysiadu plentyn, rhaid i'r asiantaeth ddechrau cofnod achos o ran y darpar fabwysiadu hwnnw ac ystyried addasrwydd y person hwnnw i fabwysiadu plentyn.

(2) Caiff yr asiantaeth fabwysiadu ofyn i'r darpar fabwysiadu ddarparu unrhyw wybodaeth bellach yn ysgrifenedig y mae'r asiantaeth yn rhesymol yn ei gwneud yn ofynnol.

(3) Pan fydd paragraff (1) yn gymwys o ran cwpl, ystyrir yr asesiad o'u haddasrwydd i fabwysiadu plentyn ar y cyd a bydd yr asiantaeth yn dechrau cofnod achos unigol.

Gofyniad i wneud gwiriadau gyda'r heddlu

23.-(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gael y canlynol -

- (a) o ran y darpar fabwysiadu, tystysgrif record droseddol fanwl yn ôl ystyr adran 115 o Ddeddf yr Heddlu 1997(1) gan gynnwys y materion a bennir yn is-adran (6A) o'r adran honno; a
- (b) o ran unrhyw aelod arall o aelwyd y darpar fabwysiadu sy'n 18 oed neu drosodd, tystysgrif record droseddol fanwl o dan adran 115 o'r Ddeddf honno gan gynnwys y materion a bennir yn is-adran (6A) o'r adran honno.

(2) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu beidio ag ystyried person yn addas i fabwysiadu plentyn neu, yn ôl y digwydd, rhaid iddi ystyried nad yw person bellach yn addas i fabwysiadu plentyn, os yw'r person neu unrhyw aelod o aelwyd y person hwnnw sy'n 18 oed neu drosodd -

- (a) wedi'i gollfarnu o dramgwydd benodedig a gyflawnwyd pan oedd yn 18 oed neu drosodd; neu
- (b) os cafodd rybuddiad gan gwnstabl o ran unrhyw dramgwydd o'r fath, y cyfaddefodd y person i'r tramgwydd pan roddwyd y rhybuddiad iddo.

(1) 1997 p.50. Diwygiwyd adran 115 gan adran 328 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, adran 19 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001, adrannau 90, 103, 104 a 116 o Ddeddf Safonau Gofal 2000, adran 152 o Ddeddf Addysg 2002 ac Atodlenni 21 a 22 iddi, adran 8 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1999, adran 135 o'r Ddeddf, adran 2 o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 ac Atodlen 2 iddi ac adran 115 o Ddeddf Trwyddedu 2003.

Requirement to consider application for an assessment of suitability to adopt a child

22.-(1) Where the adoption agency, following the procedures referred to in regulation 21, receives an application in writing from a prospective adopter for an assessment of their suitability to adopt a child, the agency must set up a case record in respect of that prospective adopter and consider that person's suitability to adopt a child.

(2) The adoption agency may ask the prospective adopter to provide any further information in writing the agency may reasonably require.

(3) Where paragraph (1) applies in relation to a couple, the assessment of their suitability to adopt a child will be considered jointly and the agency will set up a single case record.

Requirement to carry out police checks

23.-(1) The adoption agency must obtain -

- (a) in respect of the prospective adopter, an enhanced criminal record certificate within the meaning of section 115 of the Police Act 1997(1) including the matters specified in subsection (6A) of that section; and
- (b) in respect of any other member of the prospective adopter's household aged 18 or over, an enhanced criminal record certificate under section 115 of that Act including the matters specified in subsection (6A) of that section.

(2) The adoption agency must not consider a person suitable to adopt a child or, as the case may be, must consider a person no longer suitable to adopt a child, if the person or any member of the person's household aged 18 or over -

- (a) has been convicted of a specified offence committed at the age of 18 or over; or
- (b) has been cautioned by a constable in respect of any such offence which, at the time the caution was given, the person admitted.

(1) 1997 c.50. Section 115 was amended by section 328 of the Criminal Justice Act 2003, section 19 of the Health and Social Care Act 2001, sections 90, 103, 104 and 116 of the Care Standards Act 2000, section 152 of and Schedules 21 and 22 to the Education Act 2002, section 8 of the Protection of Children Act 1999, section 135 of the Act, section 2 and Schedule 2 to the National Health Service Reform and Health Care Professions Act 2002 and section 115 of the Licensing Act 2003.

(3) Ym mharagraff (2) ystyr "tramgwydd penodedig" yw -

- (a) tramgwydd yn erbyn plentyn;
- (b) tramgwydd a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 3;
- (c) tramgwydd yn groes i adran 170 o Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979(1) o ran nwyddau y gwaharddir eu mewnfario o dan adran 42 o Ddeddf Cydgrynhoi Tollau 1876 (gwaharddiadau a chyfyngiadau ynghylch pornograffi)(2) os oedd y nwyddau gwaharddedig yn cynnwys ffotograffau anwedus o blant o dan 16 oed;
- (ch) unrhyw dramgwydd arall sy'n cynnwys anaf corfforol i blentyn, ac eithrio tramgwydd ymosodiad cyffredin neu guro,

ac mae i'r ymadrodd "tramgwydd yn erbyn plentyn" yr ystyr a roddir i "offence against a child" yn adran 26(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000(3) ac eithrio nad yw'n cynnwys tramgwydd yn groes i adran 9 o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol 2003 (gweithgaredd rhywiol â phlentyn) mewn achos lle'r oedd y tramgwyddwr o dan 20 oed a'r plentyn yn 13 oed neu drosodd adeg cyflawni'r tramgwydd.

(4) Ni chaiff asiantaeth fabwysiadu ystyried bod person yn addas i fabwysiadu plentyn neu, yn ôl y digwydd, rhaid iddi ystyried nad yw person bellach yn addas i fabwysiadu plentyn, os yw'r person neu unrhyw aelod o aelwyd y person hwnnw sy'n 18 oed neu drosodd -

- (a) wedi'i gollfarnu o dramgwydd a bennir ym mharagraff 1 o Ran 2 o Atodlen 3 a gyflawnwyd pan oedd yn 18 oed neu drosodd neu os cafodd rybuddiad gan gwnstabl o ran unrhyw dramgwydd o'r fath, y cyfaddefodd y person i'r tramgwydd pan roddwyd y rhybuddiad iddo; neu
- (b) yn dod o fewn paragraff 2 neu 3 o Ran 2 o Atodlen 3,

er bod y tramgwyddau statudol a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 3 wedi'u diddymu.

Gofyniad i hysbysu

24. Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu hysbysu'r darpar fabwysiad ydd yn ysgrifenedig cyn gynted â phosibl ar ôl dod yn ymwybodol nad yw'r person yn addas, neu yn ôl y digwydd, nad yw'r person bellach yn addas, i fabwysiadu plentyn yn rhinwedd rheoliad 23(2) i (4).

(1) 1979 p.2.

(2) 1876 p.36.

(3) 2000 p.43. Diwygiwyd Atodlen 4 i Ddeddf 2000 gan Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol 2003 c.42.

(3) In paragraph (2) "specified offence" means -

- (a) an offence against a child;
- (b) an offence specified in Part 1 of Schedule 3;
- (c) an offence contrary to section 170 of the Customs and Excise Management Act 1979(1) in relation to goods prohibited to be imported under section 42 of the Customs Consolidation Act 1876 (prohibitions and restrictions relating to pornography)(2) where the prohibited goods included indecent photographs of children under the age of 16;
- (d) any other offence involving bodily injury to a child, other than an offence of common assault or battery,

and the expression "offence against a child" has the meaning given to it by section 26(1) of the Criminal Justice and Court Services Act 2000(3) except that it does not include an offence contrary to section 9 of the Sexual Offences Act 2003 (sexual activity with a child) in a case where the offender was under the age of 20 and the child was aged 13 or over at the time the offence was committed.

(4) An adoption agency may not consider a person to be suitable to adopt a child or, as the case may be, must consider a person no longer suitable to adopt a child, if that person or any member of that person's household aged 18 or over-

- (a) has been convicted of an offence specified in paragraph 1 of Part 2 of Schedule 3 committed at the age of 18 or over or has been cautioned by a constable in respect of any such offence which, at the time the caution was given, was admitted; or
- (b) falls within paragraph 2 or 3 of Part 2 of Schedule 3,

notwithstanding that the statutory offences specified in Part 2 of Schedule 3 have been repealed.

Requirement to notify

24. The adoption agency must notify the prospective adopter in writing as soon as possible after becoming aware that the person is not suitable, or as the case may be, is no longer suitable, to adopt a child by virtue of regulation 23 (2) to (4).

(1) 1979 c.2.

(2) 1876 c.36.

(3) 2000 c.43. Schedule 4 to the 2000 Act was amended by the Sexual Offences Act 2003 c.42.

Gofyniad i ddarparu paratoad ar gyfer mabwysiadu

25.-(1) Pan fydd yr asiantaeth fabwysiadu yn ystyried a yw person yn addas i fabwysiadu plentyn, rhaid i'r asiantaeth wneud trefniadau i'r darpar fabwysiadu gael y paratoad hwnnw ar gyfer mabwysiadu y mae'r asiantaeth yn ystyried ei bod yn briodol.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys os yw'r asiantaeth fabwysiadu wedi'i bodloni bod y gofynion a nodir yn y paragraff hwnnw wedi cael eu cyflawni o ran y darpar fabwysiadu gan asiantaeth fabwysiadu arall.

(3) Pan na fydd y darpar fabwysiadu yn barod i ymgymryd â'r paratoad ar gyfer mabwysiadu y mae'r asiantaeth fabwysiadu yn ystyried ei fod yn briodol yn ei achos ef, caniateir i'r asiantaeth wrthod mynd ymlaen â chais y darpar fabwysiadu am asesiad o'i addasrwydd.

(4) Ym mharagraff (1) mae "paratoad ar gyfer mabwysiadu" yn cynnwys darparu gwybodaeth i ddarpar fabwysiadu ynghylch -

- (a) ystod oedran, rhyw ac anghenion tebygol a chefnidir plant y gellid eu lleoli ar gyfer mabwysiadu gan yr asiantaeth fabwysiadu;
- (b) arwyddocâd a goblygiadau cyfreithiol mabwysiadu i blentyn a'i deulu;
- (c) cyswllt rhwng plentyn a'i rieni naturiol a pherthnasau eraill pan awdurdodir lleoli plentyn ar gyfer mabwysiadu neu pan gaiff y plentyn ei fabwysiadu;
- (ch) y sgiliau sydd eu hangen i fod yn rhiant mabwysiadol;
- (d) safbwynt y plentyn a theulu'r plentyn;
- (dd) gweithdrefnau'r asiantaeth fabwysiadu o ran asesu darpar fabwysiadwyr a lleoli plentyn ar gyfer mabwysiadu; a
- (e) y weithdrefn o ran mabwysiadu a lleoli ar gyfer mabwysiadu.

Gweithdrefnau o ran gwneud asesiad

26.-(1) Os bydd yr asiantaeth fabwysiadu, wedi iddo ddilyn y gweithdrefnau y cyfeirir atynt yn rheoliad 23 a 25, o'r farn y gallai'r darpar fabwysiadu fod yn addas i fod yn rhiant mabwysiadol, rhaid iddi gynnal asesiad yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gael y manylion hynny am y darpar fabwysiadu y cyfeirir atynt yn Rhan 1 o Atodlen 4.

- (3) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gael -
- (a) adroddiad ysgrifenedig gan ymarferydd meddygol cofrestredig am iechyd y darpar fabwysiadu y mae'n rhaid iddo ymdrin â'r

Requirement to provide preparation for adoption

25.-(1) Where the adoption agency is considering whether a person may be suitable to adopt a child, the agency must make arrangements for the prospective adopter to receive such preparation for adoption as the agency considers appropriate.

(2) Paragraph (1) does not apply if the adoption agency is satisfied that the requirements set out in that paragraph have been carried out in respect of the prospective adopter by another adoption agency.

(3) Where the prospective adopter is not prepared to undertake the preparation for adoption which the adoption agency considers appropriate in their case, the agency may refuse to proceed further with the prospective adopter's application for an assessment of their suitability to adopt.

(4) In paragraph (1) "preparation for adoption" includes the provision of information to the prospective adopter about -

- (a) the age range, gender and likely needs and background of children who may be placed for adoption by the adoption agency;
- (b) the significance and legal implications of adoption for a child and his family;
- (c) contact between a child and his natural parents and other relatives where a child is authorised to be placed for adoption or the child is adopted;
- (d) the skills needed to be an adoptive parent;
- (e) the perspective of the child and the child's family;
- (f) the adoption agency's procedures in relation to assessment of prospective adopters and placement of a child for adoption; and
- (g) the procedure in relation to placement for adoption and adoption.

Procedure in respect of carrying out an assessment

26.-(1) Where the adoption agency, after having followed the procedures referred to in regulations 23 and 25, consider the prospective adopter may be suitable to be an adoptive parent, it must carry out an assessment in accordance with this regulation.

(2) The adoption agency must obtain such particulars about the prospective adopter as are referred to in Part 1 of Schedule 4.

- (3) The adoption agency must obtain -
- (a) a written report from a registered medical practitioner about the health of the prospective adopter which must deal with the matters

materion a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 4 oni chafodd adroddiad o'r fath ei lunio o fewn 6 mis ar ôl i'r panel ystyried yr achos o dan reoliad 27 a'i fod ar gael i'r asiantaeth;

- (b) adroddiad ysgrifenedig am bob un o'r cyfweiliadau gyda'r personau a enwebwyd gan y darpar fabwysiaddd yn ganolwyr personol; ac
- (c) adroddiad ysgrifenedig gan yr awdurdod lleol y mae'r darpar fabwysiaddd yn byw yn ei ardal, a phan fo'r darpar fabwysiaddd wedi byw yn yr ardal honno am gyfnod llai na deuddeg mis rhaid i'r asiantaeth gael adroddiad ysgrifenedig hefyd gan yr awdurdod lleol yr oedd y darpar fabwysiaddd yn byw yn ei ardal cyn hynny.

(4) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu baratoi adroddiad ysgrifenedig a rhaid iddo gynnwys-

- (a) manylion am y darpar fabwysiaddd fel a nodir yn Rhan 1 o Atodlen 4;
- (b) crynodeb, a ysgrifenydd gan gynghorydd meddygol yr asiantaeth, ar gyflwr iechyd y darpar fabwysiaddd;
- (c) asesiad yr asiantaeth ar addasrwydd y darpar fabwysiaddd i fabwysiadu plentyn, ac wrth benderfynu addasrwydd cwpl i fabwysiadu plentyn, rhaid i'r asiantaeth roi sylw priodol i'r angen am gysondeb a sefydlogrwydd yn eu perthynas;
- (ch) unrhyw wybodaeth berthnasol y caiff yr asiantaeth afael arni o dan baragraff (3)(c);
- (d) unrhyw sylwadau gan yr asiantaeth ar y materion y cyfeirir atynt yn rheoliad 22, 23 a 25;
- (dd) unrhyw wybodaeth arall y mae'r asiantaeth yn ystyried sy'n berthnasol.

(5) Mewn achos adran 83 rhaid i'r adroddiad gynnwys -

- (a) enw'r wlad ("tarddwlad") y mae'r darpar fabwysiaddd yn dymuno mabwysiadu ohoni;
- (b) cadarnhad bod y darpar fabwysiaddd yn bodloni'r gofynion cymhwyster i fabwysiadu o'r darddwlad;
- (c) gwybodaeth ychwanegol a gafwyd o ganlyniad i ofynion y darddwlad; ac
- (ch) asesiad yr asiantaeth o addasrwydd y darpar fabwysiaddd i fabwysiadu plentyn sy'n preswyllo'n arferol y tu allan i Ynysoedd Prydain.

(6) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu hysbysu'r darpar fabwysiaddd yr atgyfeirir ei gais at y panel mabwysiadu ac ar yr un pryd yr anfonir copi at y darpar fabwysiaddd o adroddiad yr asiantaeth y cyfeirir ato

specified in Part 2 of Schedule 4 unless such a report has been made within 6 months of the panel's consideration of the case under regulation 27 and is available to the agency;

- (b) a written report of each of the interviews with the persons nominated by the prospective adopter as personal referees; and
- (c) a written report from the local authority in whose area the prospective adopter lives, and where the prospective adopter has lived in that area for a period of less than twelve months the agency must obtain a written report also from the local authority in whose area the prospective adopter lived previously.

(4) The adoption agency must prepare a written report which must include -

- (a) the details of the prospective adopter as set out in Part 1 of Schedule 4;
- (b) a summary, written by the agency's medical adviser, of the state of health of the prospective adopter;
- (c) the agency's assessment of the prospective adopter's suitability to adopt a child, and in determining the suitability of a couple to adopt a child the agency must have proper regard to the need for stability and permanence in their relationship;
- (d) any relevant information the agency obtains under paragraph (3)(c);
- (e) any observations of the agency on the matters referred to in regulations 22, 23, and 25;
- (f) any other information which the agency considers relevant.

(5) In a section 83 case the report must include -

- (a) the name of the country ("country of origin") from which the prospective adopter wishes to adopt;
- (b) confirmation that the prospective adopter meets the eligibility requirements to adopt from the country of origin;
- (c) additional information obtained as a consequence of the requirements of the country of origin; and
- (d) the agency's assessment of the prospective adopter's suitability to adopt a child who is habitually resident outside the British Islands.

(6) The adoption agency must notify the prospective adopter their application is to be referred to the adoption panel and at the same time send the prospective adopter a copy of the agency's report

ym mharagraff (4), a gwahodd unrhyw sylwadau ar yr adroddiad sydd i'w anfon yn ysgrifenedig at yr asiantaeth o fewn 10 niwrnod gwaith, gan ddechrau ar y dyddiad yr anfonwyd yr hysbysiad.

(7) Ar ddiwedd y cyfnod o 10 diwrnod gwaith y cyfeirir ato ym mharagraff (6) (neu'n gynharach os ceir unrhyw sylwadau a wnaed gan y darpar fabwysiadwydd cyn bod 10 niwrnod gwaith wedi mynd heibio) rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu anfon -

- (a) yr adroddiad y cyfeirir ato ym mharagraff (4), ynghyd ag unrhyw sylwadau a roddwyd gan y darpar fabwysiadwydd o dan baragraff (6);
- (b) yr adroddiadau ysgrifenedig y cyfeirir atynt ym mharagraff (3); ac
- (c) unrhyw wybodaeth arall berthnasol a gafwyd gan yr asiantaeth o dan y rheoliad hwn

at y panel mabwysiadu.

(8) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gael gafael ar unrhyw wybodaeth berthnasol arall, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, y gall y panel mabwysiadu ei gwneud yn ofynnol ac anfon yr wybodaeth honno at y panel.

Swyddogaeth y panel mabwysiadu

27.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i'r panel mabwysiadu ystyried achos y darpar fabwysiadwydd a gaiff ei atgyfeirio ato gan yr asiantaeth fabwysiadu a gwneud argymhelliad i'r asiantaeth honno a yw'r darpar fabwysiadwydd yn addas i fabwysiadu plentyn.

(2) Wrth ystyried pa argymhelliad i'w wneud, o ran y panel mabwysiadu-

- (a) rhaid iddo bwysu a mesur a chymryd i ystyriaeth yr holl wybodaeth a'r adroddiadau a ddaeth iddo yn unol â rheoliad 26;
- (b) caiff ofyn i'r asiantaeth gael gafael ar unrhyw wybodaeth berthnasol arall y mae'r panel yn ystyried ei bod yn angenrheidiol; ac
- (c) rhaid iddo gael y cyngor cyfreithiol yr ystyria sy'n angenrheidiol o ran yr achos.

(3) Pan fydd y panel mabwysiadu yn gwneud argymhelliad i'r asiantaeth fabwysiadu bod y darpar fabwysiadwydd yn addas i fabwysiadu plentyn, caiff ystyried ac ar yr un pryd caiff gynghori'r asiantaeth am y nifer o blant y gall y darpar fabwysiadwydd fod yn addas i'w mabwysiadu, ystod eu hoedran, eu rhyw a'u nodweddion (iechyd a chymdeithasol).

(4) Cyn gwneud unrhyw argymhelliad, rhaid i'r panel mabwysiadu wahodd y darpar fabwysiadwyr i ddod i gyfarfod a gynhelir gan y panel.

referred to in paragraph (4), and invite any observations on the report to be sent in writing to the agency within 10 working days, beginning with the date on which the notification was sent.

(5) Os yw paragraff (2) yn gymwys, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu -

- (a) sicrhau yr ymwelir â'r plentyn a'r darpar fabwysiadydd o fewn un wythnos ar ôl y lleoli ac wedyn o leiaf unwaith yr wythnos tan yr adolygiad cyntaf ac wedyn yn ôl yr amllder a benderfynir gan yr asiantaeth ym mhob adolygiad;
- (b) sicrhau bod adroddiadau ysgrifenedig yn cael eu llunio am yr ymweliadau hynny; ac
- (c) rhoi cyngor a chymorth o'r fath i'r darpar fabwysiadydd y mae'r asiantaeth o'r farn bod eu hangen.

(6) Wrth wneud adolygiad rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu ymweld â'r plentyn ac i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol ganfod barn -

- (a) y plentyn yng ngoleuni ei oedran a'i ddealltwriaeth;
- (b) os lleolir y plentyn ar gyfer ei fabwysiadu, y darpar fabwysiadydd; ac
- (c) unrhyw berson arall y mae'r asiantaeth yn barnu eu bod yn berthnasol,

o ran pob un o'r materion a nodir ym mharagraff (7)(a) i (dd).

(7) Fel rhan o bob adolygiad rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu ystyried-

(2) This paragraph applies where a child is placed for adoption.

(3) Where paragraph (1) applies, the adoption agency must carry out a review of the child's case -

- (a) not more than three months after the date on which the agency first has authority to place; and
- (b) thereafter not more than six months after the date of the previous review ("six months review"),

until the child is placed for adoption.

(4) Where paragraph (2) applies, the adoption agency must carry out a review of the child's case -

- (a) not more than four weeks after the date on which the child is placed for adoption ("the first review");
- (b) no more than three months after the first review; and
- (c) thereafter not more than six months after the date of the previous review,

unless the child is returned to the agency by the prospective adopter or an adoption order is made.

(5) Where paragraph (2) applies, the adoption agency must -

- (a) ensure the child and the prospective adopter are visited within one week of the placement and thereafter at least once a week until the first review and thereafter at such frequency as the agency decide at each review;
- (b) ensure that written reports are made of such visits; and
- (c) provide such advice and assistance to the prospective adopter as the agency considers necessary.

(6) When carrying out a review the adoption agency must visit the child and so far as reasonably practicable ascertain the views of -

- (a) the child in the light of the child's age and understanding;
- (b) if the child is placed for adoption, the prospective adopter; and
- (c) any other person the agency considers relevant,

in relation to each of the matters set out in paragraph (7)(a) to (f).

(7) As part of each review the adoption agency must consider-

- (a) p'un a leolwyd y plentyn ai peidio, a ydyw'r asiantaeth fabwysiadu yn parhau'n fodlon y dylid lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu;
- (b) anghenion y plentyn, ei les, ei gynnydd a'i ddatblygiad, ac a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i ddiwallu anghenion y plentyn neu gynorthwyo datblygiad y plentyn;
- (c) y trefniadau presennol ar gyfer cyswllt, ac a ddylent barhau neu gael eu haddasu;
- (ch) pan leolir plentyn ar gyfer ei fabwysiadu, y trefniadau o ran arfer cyfrifoldeb rhiant am y plentyn, ac a ddylent barhau neu gael eu haddasu;
- (d) y trefniadau presennol ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu ac a ddylid gwneud ailasesiad o'r angen am y gwasanaethau hynny;
- (dd) wrth ymgynghori â'r asiantaethau priodol, y trefniadau ar gyfer asesu a diwallu anghenion gofal iechyd ac anghenion addysgol y plentyn;
- (e) yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4) amllder yr adolygiadau.

(8) Os yw'r plentyn yn destun gorchymyn lleoliad ond na chafodd ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu ar adeg yr adolygiad chwe mis cyntaf, rhaid i'r awdurdod yn yr adolygiad hwnnw-

- (a) darganfod pam na chafodd y plentyn ei leoli ar gyfer mabwysiadu ac ystyried pa gamau pellach ddylai'r awdurdod eu cymryd o ran lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu; a
- (b) yng ngoleuni hynny, ystyried a yw'n parhau'n fodlon y dylid lleoli'r plentyn ar gyfer mabwysiadu.

(9) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu -

- (a) nodi'n ysgrifenedig y trefniadau sy'n llywodraethu'r dull y mae achos pob plentyn i gael ei adolygu a rhaid dwyn y trefniadau ysgrifenedig i sylw-
 - (i) y plentyn os yw'n rhesymol ymarferol yng ngoleuni ei oedran a'i ddealltwriaeth;
 - (ii) y darpar fabwysiadydd; a
 - (iii) unrhyw berson arall y mae'r asiantaeth yn barnu ei fod yn berthnasol.
- (b) sicrhau bod-
 - (i) yr wybodaeth a gafwyd o ran achos plentyn gan gynnwys dymuniadau a theimladau'r plentyn hyd y gellir eu casglu;
 - (ii) manylion y trafodion mewn unrhyw gyfarfod a drefnwyd gan yr asiantaeth i ystyried unrhyw agwedd ar adolygiad o'r achos; a
 - (iii) manylion unrhyw benderfyniad a wnaed yn ystod adolygiad neu o ganlyniad iddo

- (a) whether placed or not, whether the adoption agency remain satisfied that the child should still be placed for adoption;
- (b) the child's needs, welfare, progress and development, and whether any changes need to be made to meet the child's needs or assist the child's development;
- (c) the existing arrangements for contact, and whether they should continue or be modified;
- (d) where the child is placed for adoption the arrangements in relation to the exercise of parental responsibility for the child, and whether they should continue or be modified;
- (e) the existing arrangements for the provision of adoption support services and whether there should be any re-assessment of the need for those services;
- (f) in consultation with the appropriate agencies, the arrangements for assessing and meeting the child's health care needs and educational needs;
- (g) subject to paragraphs (3) and (4) the frequency of the reviews.

(8) Where the child is subject to a placement order and has not been placed for adoption at the time of the first six months review, the local authority must at that review -

- (a) establish why the child has not been placed for adoption and consider what further steps the authority should take in relation to the placement of the child for adoption; and
- (b) in light of that, consider whether it remains satisfied that the child should be placed for adoption.

(9) The adoption agency must -

- (a) set out in writing the arrangements governing the manner in which the case of each child is to be reviewed and must draw the written arrangements to the attention of -
 - (i) the child where reasonably practicable in the light of the child's age and understanding;
 - (ii) the prospective adopter; and
 - (iii) any other person the agency considers relevant.
- (b) ensure that -
 - (i) the information obtained in respect of a child's case including the ascertainable wishes and feelings of the child;
 - (ii) details of the proceedings at any meeting arranged by the agency to consider any aspect of the review of the case; and
 - (iii) details of any decision made in the course of or as a result of the review (including as

(gan gynnwys amllder yr ymweliadau),

yn cael eu cofnodi'n ysgrifenedig a'u rhoi yng nghofnod achos y plentyn.

(10) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, hysbysu-

- (a) y plentyn os yw o'r farn ei fod yn ddigon hen a'i fod yn deall digon;
- (b) y darpar fabwysiadydd; ac
- (c) unrhyw berson arall y mae'n ystyried y dylid ei hysbysu

o ganlyniad yr adolygiad ac o unrhyw benderfyniad a gymerwyd ganddi o ganlyniad i'r adolygiad.

(11) Os dychwelir y plentyn i'r asiantaeth fabwysiadu yn unol ag adran 35(1) neu (2) o'r Ddeddf, rhaid i'r asiantaeth gynnal adolygiad o achos y plentyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a beth bynnag dim hwyrach na 28 niwrnod ar ôl y dyddiad y dychwelir y plentyn i'r asiantaeth.

Swyddogion adolygu annibynnol

38.-(1) Rhaid i asiantaeth fabwysiadu sy'n awdurdod lleol neu'n gymdeithas fabwysiadu gofrestredig sy'n gorff gwirfoddol sydd yn darparu llety i blentyn, benodi person ("y swyddog adolygu annibynnol") o ran achos pob plentyn a awdurdodwyd i'w leoli ar gyfer mabwysiadu gan yr asiantaeth i gyflawni'r swyddogaethau a grybwyllir yn adran 26(2A) o Ddeddf 1989.

(2) Rhaid bod gan y swyddog adolygu annibynnol brofiad arwyddocaol mewn gwaith cymdeithasol a'i fod yn dal Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol neu Radd mewn Gwaith Cymdeithasol neu gymhwyster cyfatebol a gydnabyddir gan Gyngor Gofal Cymru.

(3) Os yw'r swyddog adolygu annibynnol yn gyflogai i'r asiantaeth fabwysiadu rhaid sicrhau nad yw swydd y swyddog adolygu annibynnol yn yr asiantaeth honno o dan reolaeth uniongyrchol -

- (a) person sy'n ymwneud â rheoli'r achos;
- (b) person sydd â chyfrifoldebau rheoli o ran y person a grybwyllir yn is-baragraff (a); neu
- (c) person sydd â rheolaeth dros yr adnoddau a glustnodwyd i'r achos.

(4) Rhaid i'r swyddog adolygu annibynnol, cyn belled ag y mae'n rhesymol ymarferol, gadeirio unrhyw gyfarfod a gynhelir mewn cysylltiad ag adolygiad achos y plentyn.

(5) Rhaid i'r swyddog adolygu annibynnol, cyn belled ag y mae'n rhesymol ymarferol, gymryd camau i sicrhau y cynhelir yr adolygiad yn unol â rheoliad 37 ac yn benodol sicrhau-

to frequency of visits),

are recorded in writing and placed on the child's case record.

(10) The adoption agency must, so far as is reasonably practicable, notify -

- (a) the child where it considers the child is of sufficient age and understanding;
- (b) the prospective adopter; and
- (c) any other person whom it considers ought to be notified

of the outcome of the review and of any decision taken by it in consequence of the review.

(11) Where the child is returned to the adoption agency in accordance with section 35(1) or (2) of the Act, the agency must conduct a review of the child's case as soon as reasonably practicable and in any event no later than 28 days after the date on which the child is returned to the agency.

Independent reviewing officers

38.-(1) An adoption agency which is a local authority or a registered adoption society which is a voluntary organisation which provides accommodation for a child, must appoint a person ("the independent reviewing officer") in respect of the case of each child authorised to be placed for adoption by the agency to carry out the functions mentioned in section 26(2A) of the 1989 Act.

(2) The independent reviewing officer must have significant experience in social work and hold a Diploma in Social Work or a Social Work Degree or an equivalent qualification recognised by the Care Council for Wales.

(3) Where the independent reviewing officer is an employee of the adoption agency the independent reviewing officer's post within that agency must not be under the direct management of -

- (a) a person involved in the management of the case;
- (b) a person with management responsibilities in relation to a person mentioned in subparagraph (a); or
- (c) a person with control over the resources allocated to the case.

(4) The independent reviewing officer must, as far as reasonably practicable chair any meeting held in connection with the review of the child's case.

(5) The independent reviewing officer must, as far as is reasonably practicable, take steps to ensure that the review is conducted in accordance with regulation 37 and in particular to ensure -

- (a) bod barn y plentyn yn cael ei deall a'i hystyried;
- (b) bod y personau sy'n gyfrifol am weithredu unrhyw benderfyniad a wnaed o ganlyniad i'r adolygiad yn cael eu henwi; a
- (c) bod unrhyw fethiant i adolygu'r achos yn unol â rheoliad 37 neu i gymryd camau priodol i wneud neu weithredu trefniadau y cytunwyd arnynt yn yr adolygiad yn cael ei ddwyn i sylw personau ar lefel briodol o gyfrifoldeb yn yr asiantaeth.

(6) Os bydd y plentyn yr adolygir ei achos yn dymuno dwyn camau cyfreithiol o dan y Ddeddf ar ei ran ei hun, er enghraifft, gwneud cais i'r llys i ddirymu gorchymyn lleoliad, swyddogaeth y swyddog adolygu annibynnol yw-

- (a) cynorthwyo'r plentyn i gael cyngor cyfreithiol; neu
- (b) sefydlu a oes oedolyn priodol yn alluog ac yn barod i weithredu i ddarparu'r cymorth hwnnw neu ddwyn camau cyfreithiol ar ran y plentyn.

(7) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu hysbysu'r swyddog adolygu annibynnol o-

- (a) unrhyw fethiant arwyddocaol i wneud neu weithredu trefniadau yn unol ag adolygiad;
- (b) unrhyw newid arwyddocaol mewn amgylchiadau sy'n digwydd ar ôl yr adolygiad sy'n effeithio ar y trefniadau hynny.

Tynnu cydsyniad yn ôl

39.-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan dynnir cydsyniad yn ôl o dan adran 19, neu adran 19 a 20 o'r Ddeddf o ran plentyn yn unol ag adran 52(8) o'r Ddeddf.

(2) Os yw paragraff (1) yn gymwys ac os yw'r asiantaeth fabwysiadu yn awdurdod lleol, pan dderbynnir y ffurflen neu'r hysbysiad a roddir yn unol ag adran 52(8) o'r Ddeddf rhaid i'r awdurdod ar unwaith adolygu ei benderfyniad i leoli'r plentyn i'w fabwysiadu ac os bydd yr awdurdod, yn unol ag adran 22(1) neu (2) o'r Ddeddf yn penderfynu gwneud cais am orchymyn lleoliad o ran y plentyn, rhaid iddo ar unwaith hysbysu -

- (a) y rhiant neu'r gwarcheidwad;
- (b) os yw rheoliad 14(2) yn gymwys, tad y plentyn, ac
- (c) os lleolir y plentyn ar gyfer ei fabwysiadu, y darpar fabwysiadydd y lleolir y plentyn gydag ef.

(3) Os bydd paragraff (1) yn gymwys a bod yr asiantaeth fabwysiadu yn gymdeithas fabwysiadu gofrestredig, rhaid i'r asiantaeth ar unwaith ystyried a yw'n briodol i hysbysu'r awdurdod lleol y mae'r plentyn yn byw yn ei ardal.

- (a) that the child's views are understood and taken into account;
- (b) that the persons responsible for implementing any decision taken in consequence of the review are identified; and
- (c) that any failure to review the case in accordance with regulation 37 or to take proper steps to make or carry out arrangements agreed at the review is brought to the attention of persons at an appropriate level of seniority within the agency.

(6) If the child whose case is reviewed wishes to take proceedings under the Act on his own account, for example, to apply to the court for revocation of a placement order, it is the function of the independent reviewing officer-

- (a) to assist the child to obtain legal advice; or
- (b) to establish whether an appropriate adult is able and willing to provide such assistance or bring the proceedings on the child's behalf.

(7) The adoption agency must inform the independent reviewing officer of-

- (a) any significant failure to make or to carry out arrangements in accordance with a review;
- (b) any significant change of circumstances occurring after the review that affects those arrangements.

Withdrawal of consent

39.-(1) This paragraph applies where consent under section 19, or section 19 and 20, of the Act in respect of a child is withdrawn in accordance with section 52(8) of the Act.

(2) Where paragraph (1) applies and the adoption agency is a local authority, on receipt of the form or notice given in accordance with section 52(8) of the Act, the authority must immediately review its decision to place the child for adoption and where, in accordance with section 22(1) or (2) of the Act, the authority decides to apply for a placement order in respect of the child, it must immediately notify -

- (a) the parent or guardian;
- (b) if regulation 14(2) applies, the child's father; and
- (c) if the child is placed for adoption, the prospective adopter with whom the child is placed.

(3) Where paragraph (1) applies and the adoption agency is a registered adoption society, the agency must immediately consider whether it is appropriate to inform the local authority in whose area the child is living.

RHAN 7
COFNODION

PART 7
RECORDS

Storio cofnodion achos

40. Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu sicrhau bod y cofnodion achos a drefnwyd yn unol â rheoliadau 12 neu 22 o ran plentyn neu ddarpar fabwysiadudd a bod cynnwys y cofnodion achos hynny bob amser yn cael eu cadw mewn cyflwr diogel ac yn benodol bod mesurau priodol yn cael eu cymryd i rwystro'r cofnodion achos rhag cael eu lladrata, rhag datgelu nas awdurdodwyd, rhag colled neu ddistryw neu niwed iddynt neu i'w cynnwys.

Cadw cofnodion achos

41. Pan wneir gorchymyn mabwysiadu ynglyn â phlentyn rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gadw'r holl gofnodion achos a luniwyd yn unol â rheoliadau 12 neu 22 am 100 mlynedd o leiaf. Mewn unrhyw achos arall rhaid i'r asiantaeth gadw'r cofnodion achos am y cyfnod hwnnw y mae'n ystyried ei fod yn briodol.

Cyfrinachedd cofnodion achos

42. Yn ddarostyngedig i reoliad 43, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu drin unrhyw wybodaeth a geir, neu adroddiadau neu argymhellion neu benderfyniadau a wneir yn rhinwedd y Rheoliadau hyn yn gyfrinachol.

Mynediad at gofnodion achos a datgelu gwybodaeth

43.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu ddarparu'r mynediad hwnnw at ei chofnodion achos a datgelu'r wybodaeth honno sydd yn ei meddiant, y gallai fod ei hangen -

- (a) i'r sawl sy'n cynnal ymchwiliad o dan adran 81 o Ddeddf 1989 (ymchwiliadau) neu adran 17 o'r Ddeddf (ymchwiliadau) at ddibenion ymchwiliad o'r fath;
- (b) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru;
- (c) yn ddarostyngedig i ddarpariaethau adran 74(5) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (datgeliad), i Gomisiynydd Plant Cymru at ddibenion unrhyw archwiliad a gynhelir yn unol â Rhan V o'r Ddeddf honno;
- (ch) yn ddarostyngedig i ddarpariaethau adrannau 29(7) a 32(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1974 (ymchwiliadau a datgeliad), i Gomisiynydd Gweinyddiaeth Leol yng Nghymru, at ddibenion unrhyw ymchwiliad a gynhelir yn unol â Rhan III o'r Ddeddf honno;
- (d) i unrhyw berson a benodwyd gan yr asiantaeth fabwysiadu at ddibenion ystyriaeth gan yr

Storage of case records

40. The adoption agency must ensure that the case record set up in accordance with regulation 12 or 22 in respect of a child or prospective adopter and the contents of that case record are at all times kept in secure conditions and in particular that all appropriate measures are taken to prevent the theft, unauthorised disclosure, loss or destruction of, or damage to, the case record or its contents.

Preservation of case records

41. Where an adoption order is made in relation to a child the adoption agency must keep all case records set up in accordance with regulations 12 or 22 for at least 100 years. In any other case the agency must keep the case records for such period as it considers appropriate.

Confidentiality of case records

42. Subject to regulation 43, any information obtained or reports, recommendations or decisions made by virtue of these Regulations must be treated by the adoption agency as confidential.

Access to case records and disclosure of information

43.-(1) Subject to paragraph (3), the adoption agency must provide such access to its case records and disclose such information in its possession, as may be required -

- (a) to those holding an inquiry under section 81 of the 1989 Act (inquiries) or section 17 of the Act (inquiries) for the purposes of such an inquiry;
- (b) to the National Assembly for Wales;
- (c) subject to the provisions of section 74(5) of the Care Standards Act 2000 (disclosure), to the Children's Commissioner for Wales for the purposes of any examination conducted in accordance with Part V of that Act;
- (d) subject to the provisions of sections 29(7) and 32(3) of the Local Government Act 1974 (investigations and disclosure), to the Commission for Local Administration in Wales, for the purposes of any investigation conducted in accordance with Part III of that Act;
- (e) to any person appointed by the adoption agency for the purposes of the consideration by

asiantaeth o unrhyw sylwadau (gan gynnwys cwynion);

- (dd) i'r personau a'r awdurdodau gan y Rheoliadau hyn ac i'r graddau a bennir yn y Rheoliadau hyn;
- (e) i swyddog achosion teuluol ar gyfer Cymru neu swyddog o CAF/CASS at ddibenion cyflawni dyletswyddau'r swyddog o dan y Ddeddf;
- (f) i lys y mae ganddo bŵer i wneud gorchymyn o dan y Ddeddf neu o dan Ddeddf 1989.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), caiff yr asiantaeth fabwysiadu ddarparu'r mynediad hwnnw a datgelu'r wybodaeth honno sydd yn ei meddiant, fel y gwel yn dda at ddibenion cyflawni ei swyddogaethau fel asiantaeth fabwysiadu.

(3) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw fynediad a ddarperir neu ddatgeliad a roir yn rhinwedd y rheoliad hwn.

Trosglwyddo cofnodion achos

44.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), caiff yr asiantaeth fabwysiadu drosglwyddo copi o gofnod achos (neu ran ohono) i asiantaeth fabwysiadu arall pan fydd o'r farn fod hyn er lles plentyn neu ddarpar fabwysiadydd y mae'r cofnod yn ymwneud ag ef, a rhaid cadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw drosglwyddiad o'r fath.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), rhaid i gymdeithas fabwysiadu gofrestredig sy'n bwriadu peidio â gweithredu neu beidio â bod yn gymdeithas fabwysiadu gofrestredig drosglwyddo ar unwaith naill ai ei chofnodion achos i asiantaeth fabwysiadu arall ar ôl cael cymeradwyaeth yr awdurdod cofrestru ar gyfer trosglwyddiad o'r fath neu drosglwyddo ei chofnodion achos -

- (a) i'r awdurdod lleol y lleolir prif swyddfa'r gymdeithas yn ei ardal; neu
- (b) yn achos cymdeithas sy'n cyfuno â chymdeithas fabwysiadu gofrestredig arall i ffurfio cymdeithas fabwysiadu gofrestredig newydd, i'r corff newydd hwnnw.

(3) Os yw cymdeithas fabwysiadu gofrestredig yn bwriadu peidio â darparu ar gyfer mabwysiadu plant ond ei bod wedi'i chofrestru i ddarparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu caiff gadw ei holl gofnodion achos ar ôl cael yn gyntaf gymeradwyaeth yr awdurdod cofrestru yn ysgrifenedig ar gyfer eu cadw.

(4) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu y trosglwyddir cofnodion achos iddi yn rhinwedd paragraff (2)(a) neu (b) hysbysu'r awdurdod cofrestru yn ysgrifenedig o'r cyfryw drosglwyddiad.

Cymhwyso rheoliadau 41 i 43

45. Nid yw rheoliadau 41 i 43 yn gymwys i

the agency of any representations (including complaints);

- (f) to the persons and authorities by and to the extent specified in these Regulations;
- (g) to a Welsh family proceedings officer or an officer of the CAF/CASS for the purposes of the discharge of the officer's duties under the Act;
- (h) to a court having power to make an order under the Act or the 1989 Act.

(2) Subject to paragraph (3), the adoption agency may provide such access to its case records and disclose such information in its possession as it thinks fit for the purposes of carrying out its functions as an adoption agency.

(3) A written record must be kept by the adoption agency of any access provided or disclosure made by virtue of this regulation.

Transfer of case records

44.-(1) Subject to paragraph (4), the adoption agency may transfer a copy of a case record (or part thereof) to another adoption agency when it considers this to be in the interests of a child or prospective adopter to whom the record relates, and a written record must be kept of any such transfer.

(2) Subject to paragraph (4) a registered adoption society which intends to cease to act or exist as such must forthwith either transfer its case records to another adoption agency having first obtained the registration authority's approval for such transfer, or transfer its case records -

- (a) to the local authority in whose area the society's principal office is situated; or
- (b) in the case of a society which amalgamates with another registered adoption society to form a new registered adoption society, to the new body.

(3) Where a registered adoption society intends to cease to provide for the adoption of children but is registered to provide adoption support services it may retain all its case records having first obtained the registration authority's approval in writing for such retention.

(4) The adoption agency to which case records are transferred by virtue of paragraph (2)(a) or (b) must notify the registration authority in writing of such transfer.

Application of regulations 41 to 43

45. Regulations 41 to 43 do not apply to case records

gofnodion achos sy'n ddarostyngedig i'r rheoliadau a wneir o dan adrannau 56 i 68 o'r Ddeddf.

which are subject to the regulations made under sections 56 to 68 of the Act.

RHAN 8 AMRYWIOL

PART 8 MISCELLANEOUS

Addasu Deddf 1989 o ran mabwysiadu

- 46.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys -
- (a) pan awdurdodir awdurdod lleol i leoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu; neu
 - (b) pan fydd plentyn a leolwyd ar gyfer ei fabwysiadu gan awdurdod lleol yn llai na chwe wythnos oed.
- (2) Pan fydd paragraff (1) yn gymwys-
- (a) ni fydd adran 22(4) (b) o Ddeddf 1989 yn gymwys;
 - (b) bydd adran 22(4)(c) o Ddeddf 1989 yn gymwys fel pe bai'r canlynol yn cael ei fewnosod yn lle'r is-baragraff hwnnw "(c) any prospective adopter with whom the local authority has placed the child for adoption.";
 - (c) bydd adran 22(5)(b) o Ddeddf 1989 yn gymwys fel pe bai'r geiriau "(4)(c) and (d)" yn cael eu mewnosod yn lle "(4)(b) to (d)"; ac
 - (ch) ni fydd paragraffau 15 a 21 o Atodlen 2 i Ddeddf 1989 yn gymwys.
- (3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan awdurdodir cymdeithas fabwysiadu gofrestredig i leoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu neu pan fydd plentyn a leolwyd ar gyfer ei fabwysiadu gan gymdeithas fabwysiadu gofrestredig yn llai na 6 wythnos oed.
- (4) Pan fydd paragraff (3) yn gymwys -
- (a) bydd adran 61(2)(a) o Ddeddf 1989 yn effeithiol o ran y plentyn p'un a letyir ef gan neu ar ran y gymdeithas ai peidio;
 - (b) ni fydd adran 61(2)(b) o Ddeddf 1989 yn gymwys;
 - (c) bydd adran 61(2)(c) o Ddeddf 1989 yn gymwys fel pe mewnosodwyd yn lle'r is-baragraff hwnnw "(c) any prospective adopter with whom the registered adoption society has placed the child for adoption."

Cyswllt

47.-(1) Os yw'r asiantaeth fabwysiadu wedi penderfynu o dan adran 27(2) o'r Ddeddf i wrthod caniatáu'r cyswllt a fyddai fel arall yn ofynnol yn rhinwedd gorchymyn o dan adran 26 o'r Ddeddf, rhaid i'r asiantaeth, cyn gynted ag y gwneir y penderfyniad,

Modification of the 1989 Act in relation to adoption

- 46.**-(1) This paragraph applies where -
- (a) a local authority is authorised to place a child for adoption; or
 - (b) a child who has been placed for adoption by a local authority is less than six weeks old.
- (2) Where paragraph (1) applies -
- (a) section 22(4)(b) of the 1989 Act shall not apply;
 - (b) section 22(4)(c) of the 1989 Act shall apply as if for that sub-paragraph there were inserted "(c) any prospective adopter with whom the local authority has placed the child for adoption.";
 - (c) section 22(5)(b) of the 1989 Act shall apply as if for the words "(4)(b) to (d)" there were inserted "(4)(c) and (d)"; and
 - (d) paragraphs 15 and 21 of Schedule 2 to the 1989 Act shall not apply.
- (3) This paragraph applies where a registered adoption society is authorised to place a child for adoption or a child who has been placed for adoption by a registered adoption society is less than 6 weeks old.
- (4) Where paragraph (3) applies -
- (a) section 61(2)(a) of the 1989 Act is to have effect in relation to the child whether or not he is accommodated by or on behalf of the society;
 - (b) section 61(2)(b) of the 1989 Act shall not apply;
 - (c) section 61(2)(c) of the 1989 Act shall apply as if for that sub-paragraph there were inserted "(c) any prospective adopter with whom the registered adoption society has placed the child for adoption."

Contact

47.-(1) Where the adoption agency has decided under section 27(2) of the Act to refuse to allow the contact that would otherwise be required by virtue of an order under section 26 of the Act, the agency must, as soon as the decision is made, notify the persons

hysbysu'r personau a bennir ym mharagraff (4) yn ysgrifenedig o'r rhannau hynny o'r wybodaeth a bennir ym mharagraff (5) yn ôl fel y barna'r asiantaeth bod angen i'r personau hynny gael gwybod.

(2) Gellir peidio â dilyn telerau gorchymyn o dan adran 26 o'r Ddeddf drwy gytundeb rhwng yr asiantaeth fabwysiadu ac unrhyw berson y mae'r gorchymyn yn darparu cyswllt iddo â'r plentyn yn yr amgylchiadau canlynol ac yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol -

- (a) os yw'r plentyn yn ddigon hen a'i fod yn deall digon, yn ddarostyngedig i gytundeb y plentyn;
- (b) os lleolir y plentyn ar gyfer ei fabwysiadu, yn ddarostyngedig i ymgynghori blaenorol â'r darpar fabwysiadydd y lleolir y plentyn gydag ef ar gyfer ei fabwysiadu; ac
- (c) hysbysiad ysgrifenedig gan yr asiantaeth i'r personau a bennir ym mharagraff (4) o'r rhannau hynny o'r wybodaeth a bennir ym mharagraff (5) yn ôl fel y barna'r asiantaeth bod angen i'r personau hynny gael gwybod, o fewn saith niwrnod o'r cytundeb i beidio â dilyn telerau'r gorchymyn.

(3) Os bydd yr asiantaeth fabwysiadu yn amrywio neu'n atal unrhyw drefniadau a wnaed (heblaw o dan orchymyn o dan adran 26 o'r Ddeddf) er mwyn caniatáu cyswllt i unrhyw berson â'r plentyn, rhaid i'r asiantaeth hysbysu'r personau a bennir ym mharagraff (4) yn ysgrifenedig o'r rhannau hynny o'r wybodaeth a bennir ym mharagraff (5) yn ôl fel y barna'r asiantaeth bod angen i'r personau hynny gael gwybod.

(4) Mae'r personau canlynol yn rhai a bennir at ddibenion paragraffau (1) a (2) -

- (a) y plentyn os yw'r asiantaeth fabwysiadu o'r farn ei fod yn ddigon hen a'i fod yn deall digon;
- (b) rhiant y plentyn;
- (c) rhiant neu warcheidwad y plentyn;
- (ch) unrhyw berson y mae'r gorchymyn o dan adran 26 o'r Ddeddf yn darparu cyswllt iddo;
- (d) unrhyw berson y caniatodd yr asiantaeth gyswllt iddo â'r plentyn;
- (dd) os lleolir y plentyn ar gyfer ei fabwysiadu, y darpar fabwysiadydd;
- (e) unrhyw berson arall y mae'r asiantaeth o'r farn bod ei ddymuniadau a'i deimladau yn berthnasol.

(5) Mae'r wybodaeth ganlynol yn un a bennir at ddibenion paragraffau 1, 2 a 3 -

- (a) penderfyniad yr asiantaeth fabwysiadu;
- (b) dyddiad y penderfyniad;
- (c) y rhesymau dros y penderfyniad;
- (ch) pa hyd y pery'r penderfyniad (os yw'n gymwys).

specified in paragraph (4) in writing of those parts of the information specified in paragraph (5) as the agency considers those persons need to know.

(2) The terms of an order under section 26 of the Act may be departed from by agreement between the adoption agency and any person for whose contact with the child the order provides in the following circumstances and subject to the following conditions -

- (a) where the child is of sufficient age and understanding, subject to the child's agreement;
- (b) where the child is placed for adoption, subject to prior consultation with the prospective adopter with whom the child is placed for adoption; and
- (c) written notification by the agency to the persons specified in paragraph (4) of those parts of the information specified in paragraph (5) as the agency considers those persons need to know, within seven days of the agreement to depart from the terms of the order.

(3) Where the adoption agency varies or suspends any arrangements made (otherwise than under an order under section 26 of the Act) with a view to allowing any person contact with the child, the agency must notify the persons specified in paragraph (4) in writing of those parts of the information specified in paragraph (5) as the agency considers those persons need to know.

(4) The following persons are specified for the purposes of paragraphs (1) and (2) -

- (a) the child, if the adoption agency considers the child is of sufficient age and understanding;
- (b) the child's parents;
- (c) any guardian of the child;
- (d) any person for whose contact with the child the order under section 26 of the Act provides;
- (e) any person the agency allowed contact with the child;
- (f) if the child is placed for adoption, the prospective adopter;
- (g) any other person whose wishes and feelings the agency consider to be relevant.

(5) The following information is specified for the purposes of paragraphs 1, 2 and 3 -

- (a) adoption agency's decision;
- (b) date of the decision;
- (c) reasons for the decision;
- (d) duration (if applicable).

Dirymu

48. Drwy hyn dirymir Rheoliadau Mabwysiadu Plant o Wledydd Tramor (Cymru) 2001(1), Rheoliadau Mabwysiadu Plant o Wledydd Tramor (Cymru) (Diwygio) 2003(2) a Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Diwygio) (Cymru) 2003(3).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(4)

10 Mai 2005

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Revocation

48. The Adoption of Children from Overseas (Wales) Regulations 2001(1), the Adoption of Children from Overseas (Wales) (Amendment) Regulations 2003(2) and The Adoption Agencies (Amendment) (Wales) Regulations 2003(3) are hereby revoked.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(4)

10 May 2005

The Presiding Officer of the National Assembly

D. Elis Thomas

(1) OS 2001/1272 (Cy.71)
(2) OS 2003/1634 (Cy.176)
(3) OS 2003/3223 (Cy.306)
(4) 1998 p.38.

(1) SI 2001/1272 (W.71)
(2) SI 2003/1634 (W.176)
(3) SI 2003/3223 (W.306)
(4) 1998 c.38.

RHAN 1

PART 1

Rheoliad 15(1)

Regulation 15(1)

GWYBODAETH AM Y PLENTYN

INFORMATION ABOUT THE CHILD

1. Enw, rhyw, dyddiad a man geni a chyfeiriad gan gynnwys ardal yr awdurdod lleol.
2. Llun a disgrifiad corfforol.
3. Cenedl(1).
4. Tarddiad hiliol a chefnidir diwylliannol ac ieithyddol.
5. Cred grefyddol, os oes un, (gan gynnwys manylion bedydd, gwasanaeth derbyn neu seremonïau cyfatebol).
6. A yw'r plentyn yn derbyn gofal neu a ddarperir llety iddo o dan adran 59(1) o Ddeddf 1989.
7. Manylion unrhyw orchymyn llys a wnaed ynglŷn â'r plentyn o dan Ddeddf 1989 gan gynnwys enw'r llys, y gorchymyn a wnaed a'r dyddiad y gwnaed y gorchymyn.
8. A oes gan y plentyn unrhyw hawl i eiddo neu unrhyw fuddiant ynddynt neu unrhyw hawliad am iawndal o dan Ddeddf Damweiniau Angheuol 1976 neu fel arall y gall eu cadw neu eu colli os mabwysiadir ef.
9. Cronoleg o ofal y plentyn ers ei enedigaeth.
10. Asesiad o bersonoliaeth y plentyn, ei ddatblygiad cymdeithasol a'i ddatblygiad emosiynol a datblygiad ei ymddygiad.
11. A oes gan y plentyn unrhyw anawsterau gyda gweithgareddau megis bwydo, ymolchi ac ymwisgo.
12. Hanes addysgol y plentyn gan gynnwys-
 - (a) enwau, cyfeiriadau a'r mathau o feithrinfeydd neu ysgolion a fynychwyd gyda dyddiadau;
 - (b) crynodeb o'i gynnydd a'i gyraeddiadau;
 - (c) a yw'n ddarostyngedig i ddatganiad o dan Ddeddf Addysg 1996;
 - (ch) unrhyw anghenion arbennig sydd ganddo o ran dysgu; a
 - (d) os yw'n derbyn gofal, manylion ei gynllun addysg personol a baratowyd gan yr awdurdod lleol.

1. Name, gender, date and place of birth and address including the local authority area.
2. A photograph and physical description.
3. Nationality(1).
4. Racial origin and cultural and linguistic background.
5. Religious persuasion, if any, (including details of baptism, confirmation or equivalent ceremonies).
6. Whether the child is looked after or is provided with accommodation under section 59(1) of the 1989 Act.
7. Details of any order made by a court with respect to the child under the 1989 Act including the name of the court, the order made and the date on which the order was made.
8. Whether the child has any rights to, or interest in, property or any claim to damages under the Fatal Accidents Act 1976 or otherwise which he or she stands to retain or lose if adopted.
9. A chronology of the child's care since birth.
10. An assessment of the child's personality, social development and emotional and behavioural development.
11. Whether the child has any difficulties with activities such as feeding, washing and dressing him or herself.
12. The educational history of the child including-
 - (a) the names, addresses and types of nurseries or schools attended with dates;
 - (b) a summary of progress and attainments;
 - (c) whether he or she is subject to a statement under the Education Act 1996;
 - (d) any special needs he or she has in relation to learning; and
 - (e) where he or she is looked after, details of the personal education plan prepared by the local authority.

(1) Yn y cyd-destun hwn ni wahaniaethir rhwng gwahanol rannau o'r D.U.

(1) No distinction is drawn in this context between the different parts of the UK.

13. Gwybodaeth am-

- (a) perthynas y plentyn gyda -
 - (i) ei riant neu ei warcheidwad ac, os yw rheoliad 14(2) yn gymwys, ei dad;
 - (ii) unrhyw frodyr neu chwiorydd neu berthnasau eraill; a
 - (iii) unrhyw berson arall y mae'r asiantaeth yn barnu ei fod yn berthnasol;
- (b) y tebygolrwydd y gall y berthynas honno barhau a gwerth hynny i'r plentyn; a
- (c) gallu a pharodrwydd unrhyw un o berthnasau'r plentyn, neu unrhyw berson arall y mae'r asiantaeth yn ystyried ei fod yn berthnasol, i roi amgylchedd diogel i'r plentyn y gall ddatblygu ynddo, a bodloni ei anghenion fel arall.

14. Y trefniadau ar hyn o bryd a'r math o gyswllt rhwng rhiant y plentyn neu ei warcheidwad neu berson arall â chyfrifoldeb rhiant amdano ac, os yw rheoliad 14(2) yn gymwys, ei dad, ac unrhyw berthynas, cyfaill neu berson arall.

15. Disgrifiad o ddiddordebau'r plentyn, ei hoff bethau a'i gas bethau.

16. Unrhyw wybodaeth berthnasol arall a allai fod o gymorth i'r panel mabwysiadu neu'r asiantaeth fabwysiadu.

13. Information about-

- (a) the child's relationship with -
 - (i) the child's parent or guardian and, where regulation 14(2) applies, the child's father;
 - (ii) any brothers or sisters or other relatives; and
 - (iii) any other person the agency considers relevant;
- (b) the likelihood of any such relationship continuing and the value to the child of its doing so; and
- (c) the ability and willingness of any of the child's relatives, or any other person the agency considers relevant, to provide the child with a secure environment in which the child can develop, and otherwise to meet the child's needs.

14. The current arrangements for and the type of contact between the child's parent or guardian or other person with parental responsibility for the child and, where regulation 14(2) applies, the child's father, and any relative, friend or other person.

15. A description of the child's interests, likes and dislikes.

16. Any other relevant information which might assist the adoption panel or the adoption agency.

RHAN 2

PART 2

Rheoliad 15(2)

Regulation 15(2)

**MATERION I'W CYNNWYS YN
ADRODDIAD IECHYD Y PLENTYN**

**MATTERS TO BE INCLUDED IN THE
CHILD'S HEALTH REPORT**

- 1. Enw, dyddiad geni, rhyw, pwysau a thaldr.
- 2. Adroddiad newyddenedigol ar y plentyn, gan gynnwys-
 - (a) manylion am ei enedigaeth, ac unrhyw gymhlethdodau;
 - (b) canlyniadau archwiliad corfforol a phroffion sgrinio;
 - (c) manylion unrhyw driniaeth a roddwyd;
 - (ch) manylion unrhyw broblemau mewn rheoli a bwydo;
 - (d) unrhyw wybodaeth berthnasol arall a allai fod o gymorth i'r panel;
 - (dd) enw a chyfeiriad unrhyw feddyg a allai roi gwybodaeth bellach am unrhyw un o'r materion uchod.

- 1. Name, date of birth, gender, weight and height.
- 2. A neo-natal report on the child, including-
 - (a) details of the child's birth, and any complications;
 - (b) results of a physical examination and screening tests;
 - (c) details of any treatment given;
 - (d) details of any problem in management and feeding;
 - (e) any other relevant information which may assist the panel;
 - (f) the name and address of any doctor who may be able to provide further information about any of the above matters.

3. Hanes iechyd y plentyn yn llawn, gan gynnwys-
- (a) manylion o unrhyw salwch difrifol, anabledd, damwain, derbyn i ysbyty neu fynychu adran cleifion allanol, ac ym mhob achos unrhyw driniaeth a roddwyd;
 - (b) manylion a dyddiadau imwneiddio;
 - (c) asesiad corfforol ac asesiad o ddatblygiad yn ôl oedran, gan gynnwys asesiad o'r llygaid a'r clyw a datblygiad niwrolegol, llafaredd ac iaith ac unrhyw dystiolaeth o anhwylder emosiynol;
 - (ch) hanes ei iechyd gan yr ysgol (os yw ar gael);
 - (d) sut y mae iechyd corfforol a iechyd meddwl y plentyn a'i hanes meddygol wedi effeithio ar ddatblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ddatblygiad ei ymddygiad;
 - (dd) unrhyw wybodaeth berthnasol arall a all gynorthwyo'r panel mabwysiadu.

4. Llofnod, enw, cyfeiriad, rhif ffôn a chymwysterau'r ymarferydd meddygol cofrestredig a baratôdd yr adroddiad, dyddiad yr adroddiad a'r archwiliadau a wnaed ynghyd ag enw a chyfeiriad unrhyw feddyg arall a all roi gwybodaeth bellach am unrhyw rai o'r materion uchod.

3. A full health history of the child, including-
- (a) details of any serious illness, disability, accident, hospital admission or attendance at an out-patient department, and in each case any treatment given;
 - (b) details and dates of immunisations;
 - (c) a physical and developmental assessment according to age, including an assessment of vision and hearing and of neurological, speech and language development and any evidence of emotional disorder;
 - (d) the school health history (if available);
 - (e) how the child's physical and mental health and medical history has affected his or her physical, intellectual, emotional, social or behavioural development;
 - (f) any other relevant information which may assist the adoption panel.

4. The signature, name, address and telephone number and qualifications of the registered medical practitioner who prepared the report, the date of the report and of the examinations carried out together with the name and address of any other doctor who may be able to provide further information about any of the above matters.

RHAN 3

PART 3

Rheoliad 16(1)

Regulation 16(1)

GWYBODAETH AM DEULU'R PLENTYN AC ERAILL

INFORMATION ABOUT THE CHILD'S FAMILY AND OTHERS

Gwybodaeth am bob rhiant i'r plentyn (gan gynnwys y rhieni naturiol a mabwysiadol) gan gynnwys tad nad oes ganddo gyfrifoldeb rhiant am y plentyn

Information about each parent of the child (both natural and adoptive) including a father who does not have parental responsibility for the child

1. Enw, rhyw, dyddiad a man geni a chyfeiriad gan gynnwys ardal yr awdurdod lleol.
2. Llun, os oes un ar gael, a disgrifiad corfforol.
3. Cenedl(1).
4. Tarddiad hiliol a chefnidir diwylliannol ac ieithyddol.
5. Cred grefyddol, os oes un.
6. Disgrifiad o'u personoliaeth a'u diddordebau.

1. Name, gender, date and place of birth and address including the local authority area.
2. A photograph, if available, and physical description.
3. Nationality(1).
4. Racial origin and cultural and linguistic background.
5. Religious persuasion, if any.
6. A description of their personality and interests.

Gwybodaeth am frodyr a chwiorydd y plentyn

Information about the child's brothers and sisters

7. Enw, rhyw a dyddiad a man geni.
8. Llun, os oes un ar gael, a disgrifiad corfforol.

7. Name, gender and date and place of birth.
8. A photograph, if available, and physical description.

(1) Yn y cyd-destun hwn ni wahaniaethir rhwng gwahanol rannau o'r D.U.

(1) No distinction is drawn in this context between the different parts of the U.K.

9. Cenedl(1).
10. Cyfeiriad, os yw'n briodol.
11. Os unrhyw frawd neu chwaer o dan 18 oed-
- (a) ym mha le a gyda phwy y mae ef neu hi yn byw;
 - (b) a yw'n derbyn gofal neu a ddarperir llety iddo neu iddi o dan adran 59(1) o Ddeddf 1989;
 - (c) manylion unrhyw orchymyn llys a wnaed ynglyn ag ef neu hi o dan Ddeddf 1989 gan gynnwys enw'r llys, y gorchymyn a wnaed a'r dyddiad y gwnaed y gorchymyn; ac
 - (ch) a ydyw ef neu hi hefyd yn cael eu hystyried ar gyfer eu mabwysiadu.

Gwybodaeth am berthnasau eraill y plentyn ac unrhyw berson arall y mae'r asiantaeth yn ystyried ei fod yn berthnasol

12. Enw, rhyw a dyddiad a man geni.
13. Cenedl(2).
14. Cyfeiriad, os yw'n briodol.

Hanes y teulu a pherthnasau

15. A oedd mam a thad y plentyn yn briod â'i gilydd adeg geni'r plentyn (neu a ydynt wedi priodi ar ôl hynny) ac os felly, dyddiad a man y briodas ac a yw'r rhieni wedi ysgaru neu wedi gwahanu.
16. Os nad oedd rhieni'r plentyn yn briod a'i gilydd ar adeg geni'r plentyn, a oes gan dad y plentyn gyfrifoldeb rhiant am y plentyn ac os felly sut y cafwyd ef.
17. Os na wyddys pwy yw tad y plentyn na ble y mae, yr wybodaeth amdano sy'n hysbys a phwy a'i rhoes, a'r camau a gymrwyd i ddarganfod tadolaeth.
18. Os bu rhieni'r plentyn yn briod neu wedi ffurfio partneriaeth sifil, dyddiad y briodas neu yn ôl y digwydd, dyddiad a man cofrestru'r bartneriaeth sifil.
19. I'r graddau y mae'n bosibl, coeden deulu a manylion teidiau a neiniau'r plentyn, ei fodrybedd a'i ewythredd a'u hoedran (neu eu hoedran pan fuont farw).
20. Os yw'n rhesymol ymarferol, cronoleg dau riant y plentyn ers eu genedigaeth.
21. Sylwadau rhieni'r plentyn am eu profiadau hwy am y rhiant a gawsant yn eu plentyndod a sut y dylanwadodd hyn arnynt.

(1) Yn y cyd-destun hwn ni wahaniaethir rhwng gwahanol rannau o'r D.U.

(2) *Gweler* (1) uchod.

9. Nationality(1).
10. Address, if appropriate.
11. If any brother or sister is under the age of 18-
- (a) where and with whom he or she is living;
 - (b) whether he or she is looked after or is provided with accommodation under section 59(1) of the 1989 Act;
 - (c) details of any court order made with respect to him or her under the 1989 Act, including the name of the court, the order made, and the date on which the order was made; and
 - (d) whether he or she is also being considered for adoption.

Information about the child's other relatives and any other person the agency considers relevant

12. Name, gender and date and place of birth.
13. Nationality(2).
14. Address, if appropriate.

Family history and relationships

15. Whether the child's parents were married to each other at the time of the child's birth (or have subsequently married) and if so, the date and place of marriage and whether they are divorced or separated.
16. Where the child's parents were not married to each other at the time of the birth, whether the father has parental responsibility for the child and if so how it was acquired.
17. If the identity or whereabouts of the child's father are not known, the information about him that has been ascertained and from whom, and the steps that have been taken to establish paternity.
18. Where the child's parents have been previously married or formed a civil partnership, the date of the marriage or, as the case may be, the date and place of registration of the civil partnership.
19. So far as is possible, a family tree with details of the child's grandparents, parents and aunts and uncles with their age (or ages at death).
20. Where it is reasonably practicable, a chronology of each of the child's parents from birth.
21. The observations of the child's parents about their own experiences of being parented and of how this has influenced them.

(1) No distinction is drawn in this context between the different parts of the U.K.

(2) *See* (1) above.

22. Y berthynas a fu a'r berthynas bresennol rhwng rhieni'r plentyn.

23. Manylion am y teulu ehangach a'u rôl a'u pwysigrwydd -

(a) i rieni'r plentyn; a

(b) i unrhyw frodyr neu chwiorydd y plentyn.

Gwybodaeth arall am ddau riant y plentyn ac os yw rheoliad 14(2) yn gymwys, y tad

24. Gwybodaeth am eu cartref a'r gymdogaeth y maent yn byw ynddi.

25. Manylion hanes eu haddysg.

26. Manylion hanes eu cyflogaeth.

27. Gwybodaeth am gynneddf rianta mam a thad y plentyn, yn enwedig eu gallu a'u parodrwydd i rianta'r plentyn.

28. Unrhyw wybodaeth berthnasol arall a allai fod o gymorth i'r panel mabwysiadu neu'r asiantaeth fabwysiadu.

22. The past and present relationship of the child's parents.

23. Details of the wider family and their role and importance to-

(a) the child's parents; and

(b) any brothers or sisters of the child.

Other information about each parent of the child and where regulation 14(2) applies, the father

24. Information about their home and the neighbourhood in which they live.

25. Details of their educational history.

26. Details of their employment history.

27. Information about the parenting capacity of the child's mother and father, particularly their ability and willingness to parent the child.

28. Any other relevant information which might assist the adoption panel or the adoption agency.

RHAN 4

PART 4

Rheoliad 16(1)

Regulation 16(1)

MANYLION YNGHYLCH GWARCHEIDWAD

PARTICULARS RELATING TO A GUARDIAN

1. (a) Enw, rhyw a dyddiad a man geni.

(b) Cenedl(1).

(c) Cyfeiriad a rhif ffôn.

2. Y berthynas a fu a'r berthynas bresennol â'r plentyn.

3. Crefydd.

4. Unrhyw wybodaeth berthnasol arall y mae'r asiantaeth yn ystyried a all gynorthwyo'r panel mabwysiadu.

1. (a) Name, gender and date and place of birth.

(b) Nationality(1).

(c) Address and telephone number.

2. Their past and present relationship with the child.

3. Religion.

4. Any other relevant information which the agency considers may assist the adoption panel.

(1) Yn y cyd-destun hwn ni wahaniaethir rhwng gwahanol rannau o'r D.U.

(1) No distinction is drawn in this context between the different parts of the U.K.

**MANYLION YNGHYLCH IECHYD
RHIENI A BRODYR A CHWIORYDD
NATURIOL Y PLENTYN**

1. Enw, dyddiad geni, rhyw, pwysau a thaldra'r ddau riant naturiol.
2. Hanes iechedd y teulu, sy'n ymwneud â dau riant naturiol y plentyn, brodyr a chwiorydd y plentyn (os oes rhai) a'r plant arall (os oes rhai) gan bob riant gyda manylion unrhyw salwch corfforol difrifol neu salwch meddwl difrifol a chlefyd neu anhwylder etifeddol.
3. Hanes iechedd dau riant naturiol y plentyn, gan gynnwys manylion unrhyw salwch corfforol difrifol neu salwch meddwl difrifol, camddefnyddio cyffuriau neu alcohol, anabledd, damwain neu dderbyn i ysbty, ac ym mhob achos unrhyw driniaeth a gafwyd y mae'r asiantaeth o'r farn ei bod yn berthnasol.
4. Crynodeb o hanes obstetrig y fam, gan gynnwys unrhyw broblemau yn y cyfnod cyn geni, esgor ac ar ôl geni, gyda chanlyniadau unrhyw brofion a wnaed yn ystod neu'n syth ar ôl beichiogrwydd.
5. Manylion unrhyw salwch presennol, gan gynnwys y driniaeth a'r prognosis.
6. Unrhyw wybodaeth berthnasol arall y mae'r asiantaeth yn ystyried a all gynorthwyo'r panel.
7. Llofnod, enw, cyfeiriad, rhif ffôn a chymwysterau unrhyw ymarferydd meddygol cofrestredig a roddodd unrhyw wybodaeth sydd yn y Rhan hon ynghyd ag enw a chyfeiriad unrhyw feddyg arall a allai roi wybodaeth bellach am unrhyw rai o'r materion uchod.

ATODLEN 2

**GWYBODAETH A DOGFENNAU I'W
DARPARU I SWYDDOG ACHOSION
TEULUOL AR GYFER CYMRU NEU
SWYDDOG O CAFCASS**

1. Copi o dystysgrif geni'r plentyn.
2. Enw a chyfeiriad riant neu warcheidwad y plentyn.
3. Cronoleg o'r camau a'r penderfyniadau a gymerwyd gan yr asiantaeth o ran y plentyn.

**PARTICULARS RELATING TO THE
HEALTH OF THE CHILD'S NATURAL
PARENTS AND BROTHERS AND
SISTERS**

1. Name, date of birth, gender, weight and height of each natural parent.
2. A family health history, covering each of the child's natural parents, the child's brothers and sisters (if any) and the other children (if any) of each parent with details of any serious physical or mental illness and any hereditary disease or disorder.
3. A health history of each of the child's natural parents, including details of any serious physical or mental illness, drug or alcohol misuse, disability, accident or hospital admission and in each case any treatment given where the agency consider such information to be relevant.
4. A summary of the mother's obstetric history, including any problems in the ante-natal, labour and post-natal periods, with the results of any tests carried out during or immediately after pregnancy.
5. Details of any present illness, including treatment and prognosis.
6. Any other relevant information which the agency considers may assist the panel.
7. The signature, name, address, telephone number and qualifications of any registered medical practitioner who supplied any of the information in this Part together with the name and address of any other doctor who may be able to provide further information about any of the above matters.

SCHEDULE 2

**INFORMATION AND DOCUMENTS TO
BE PROVIDED TO WELSH FAMILY
PROCEEDINGS OFFICER OR OFFICER
OF CAFCASS**

1. A copy of the child's birth certificate.
2. Name and address of the parent or guardian.
3. A chronology of the actions and decisions taken by the adoption agency with respect to the child.

4. Cadarnhad gan yr asiantaeth ei bod wedi cwmsela, ac wedi esbonio i'r rhiant neu'r gwarcheidwad oblygiadau cyfreithiol y cydsyniad i leoli o dan adran 19 o'r Ddeddf a hefyd, yn ôl y digwydd, o ran gwneud gorchymyn mabwysiadu yn y dyfodol o dan adran 20 o'r Ddeddf, a'i bod wedi rhoi gwybodaeth ysgrifenedig i'r rhiant neu'r gwarcheidwad ynghylch y mater hwn ynghyd â chopi o'r wybodaeth a roddwyd i'r rhiant neu'r gwarcheidwad.

5. Unrhyw wybodaeth am y rhiant neu'r gwarcheidwad neu wybodaeth arall y mae'r asiantaeth fabwysiadu o'r farn y gall y swyddog achosion teuluol ar gyfer Cymru neu swyddog CAF/CASS fod angen ei gwybod.

4. Confirmation by the agency that it has counselled, and explained to the parent or guardian the legal implications of both consent to placement under section 19 of the Act and, as the case may be, to the making of a future adoption order under section 20 of the Act, and provided the parent or guardian with written information about this together with a copy of the information provided to the parent or guardian.

5. Such information about the parent or guardian or other information as the adoption agency considers the Welsh family proceedings officer or officer of CAF/CASS may need to know.

ATODLEN 3

SCHEDULE 3

Rheoliad 23(3)(b)

Regulation 23 (3)(b)

RHAN 1

TRAMGWYDDAU A BENNIR AT DDIBENION RHEOLIAD 23(3)(b)

PART 1

OFFENCES SPECIFIED FOR THE PURPOSES OF REGULATION 23(3)(b)

Tramgwyddau yng Nghymru a Lloegr

1. Tramgwydd treisio oedolyn o dan adran 1 o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol 2003 -

- (a) tramgwydd trais o dan adran 1 o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol 2003(1);
- (b) tramgwydd ymosodiad drwy dreiddiad o dan adran 2 o'r Ddeddf honno;
- (c) tramgwydd peri i berson gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol heb gydsyniad o dan adran 4 o'r Ddeddf honno os oedd y gweithgaredd yn dod o fewn is-adran (3);
- (ch) tramgwydd gweithgaredd rhywiol gyda pherson ag anhwylder meddwl sy'n llesteirio dewis o dan adran 30 o'r Ddeddf honno os oedd y cyffwrdd yn dod o fewn is-adran (3);
- (d) tramgwydd peri neu ysgogi person ag anhwylder meddwl sy'n llesteirio dewis, i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol o dan adran 31 o'r Ddeddf honno, os oedd y gweithgaredd a barwyd neu a ysgogwyd yn dod o fewn is-adran (3);
- (dd) tramgwydd cymell, bygwth neu ddichell i ddenu gweithgaredd rhywiol gyda pherson ag anhwylder meddwl o dan adran 34 o'r Ddeddf honno, os oedd y cyffwrdd yn dod o fewn is-adran (2); ac
- (e) tramgwydd o beri i berson ag anhwylder meddwl gymryd rhan neu gytuno i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol drwy gymell, bygwth neu ddichell os oedd y gweithgaredd yn dod o fewn is-adran (2).

Offences in England and Wales

1. An offence of rape of an adult under section 1 of the Sexual Offences Act 2003 -

- (a) an offence of rape under section 1 of the Sexual Offences Act 2003(1);
- (b) an offence of assault by penetration under section 2 of that Act;
- (c) an offence of causing a person to engage in sexual activity without consent under section 4 of that Act if the activity fell within subsection (3);
- (d) an offence of sexual activity with a person with a mental disorder impeding choice under section 30 of that Act if the touching fell within subsection (3);
- (e) an offence of causing or inciting a person with mental disorder impeding choice, to engage in sexual activity under section 31 of that Act, if the activity caused or incited fell within subsection (3);
- (f) an offence of inducement threat or deception to procure sexual activity with a person with a mental disorder under section 34 of that Act, if the touching involved fell within subsection (2); and
- (g) an offence of causing a person with a mental disorder to engage in or agree to engage in sexual activity by inducement, threat or deception if the activity fell within subsection (2).

(1) 2003 p.42.

(1) 2003 c.42.

Tramgwyddau yn yr Alban

2. Tramgwydd trais.

3. Tramgwydd a bennir yn Atodlen 1 i Ddeddf y Weithdrefn Droseddol (yr Alban) 1995(1) ac eithrio mewn achos lle'r oedd y tramgwyddwr o dan 20 oed adeg cyflawni'r tramgwydd, tramgwydd sy'n groes i adran 5 o Ddeddf Cyfraith Trosedd (Cydgrynhoi) (yr Alban) 1995 (cyfathrach rywiol â merch o dan 16 oed)(2), tramgwydd o anwedduster digywilydd rhwng dynion neu dramgwydd sodomiaeth.

4. Tramgwydd plagiwm (lladrata plentyn o dan oed blaenaeddfedrwydd).

5. Tramgwydd o dan adran 52 neu 52A o Ddeddf Llywodraeth Sifil (yr Alban) 1982 (lluniau anwedus o blant)(3).

6. Tramgwydd o dan adran 3 o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol (Diwygio) 2000 (cam-drin ymddiriedaeth)(4).

Tramgwyddau yng Ngogledd Iwerddon

7. Tramgwydd trais.

8. Tramgwydd a bennir yn Atodlen 1 i Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Gogledd Iwerddon) 1968(5), ac eithrio mewn achos lle'r oedd y tramgwyddwr o dan 20 oed adeg cyflawni'r tramgwydd, tramgwydd sy'n groes i adrannau 5 neu 11 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Trosedd 1885 (cyfathrach gnawdol anghyfreithlon â merch o dan 17 oed ac anwedduster garw rhwng gwrywod)(6), neu dramgwydd yn groes i adran 61 o Ddeddf Tramgwyddau Corfforol 1861 (sodomiaeth).

9. Tramgwydd o dan Erthygl 3 o Orchymyn Amddiffyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1978 (lluniau anwedus)(7).

10. Tramgwydd o dan Erthygl 9 o Orchymyn Cyfiawnder Troseddol (Tystiolaeth etc.) (Gogledd Iwerddon) 1980 (ysgogi merch o dan 16 i gael cyfathrach rywiol losgachol)(8).

11. Tramgwydd yn groes i Erthygl 15 o Orchymyn Cyfiawnder Troseddol (Tystiolaeth, etc.) (Gogledd Iwerddon) 1988 (meddu ar lun anwedus o blant)(9).

(1) 1995 p.46.

(2) 1995 p.39.

(3) 1982 p.45, mewnosodwyd adran 52A gan adran 161 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 p.33.

(4) 2000 p.44.

(5) 1968 p.34 (G.I.)

(6) 1985 p.69.

(7) O.S. 1978/1047 (G.I.17).

(8) O.S. 1980/704 (G.I.6).

(9) O.S. 1988/1847 (G.I.17).

Offences in Scotland

2. An offence of rape.

3. An offence specified in Schedule 1 to the Criminal Procedure (Scotland) Act 1995(1) except, in a case where the offender was under the age of 20 at the time the offence was committed, an offence contrary to section 5 of the Criminal Law (Consolidation) (Scotland) Act 1995 (intercourse with a girl under 16)(2), an offence of shameless indecency between men or an offence of sodomy.

4. An offence of plagium (theft of a child below the age of puberty).

5. An offence under section 52 or 52A of the Civil Government (Scotland) Act 1982 (indecent photographs of children)(3).

6. An offence under section 3 of the Sexual Offences (Amendment) Act 2000 (abuse of trust)(4).

Offences in Northern Ireland

7. An offence of rape.

8. An offence specified in Schedule 1 to the Children and Young Person Act (Northern Ireland) 1968(5), except in the case where the offender was under the age of 20 at the time the offence was committed, an offence contrary to sections 5 or 11 of the Criminal Law Amendment Act 1885 (unlawful carnal knowledge of a girl under 17 and gross indecency between males)(6), or an offence contrary to section 61 of the Offences against the Person Act 1861 (buggery).

9. An offence under Article 3 of the Protection of Children (Northern Ireland) Order 1978 (indecent photographs)(7).

10. An offence under Article 9 of the Criminal Justice (Evidence etc.) (Northern Ireland) Order 1980 (inciting girl under 16 to have incestuous sexual intercourse)(8).

11. An offence contrary to Article 15 of the Criminal Justice (Evidence, etc.) (Northern Ireland) Order 1988 (possession of indecent photograph of children)(9).

(1) 1995 c.46.

(2) 1995 c.39.

(3) 1982 c.45, Section 52A was inserted by section 161 of the Criminal Justice Act 1988 c.33.

(4) 2000 c.44.

(5) 1968 c.34 (N.I.)

(6) 1985 c.69.

(7) S.I. 1978/1047 (N.I.17).

(8) S.I. 1980/704 (N.I.6).

(9) S.I. 1988/1847 (N.I.17).

12. Tramgwydd o dan adran 3 o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol (Diwygio) 2000 (cam-drin ymddiriedaeth).

12. An offence under section 3 of the Sexual Offences (Amendment) Act 2000 (abuse of trust).

RHAN 2

PART 2

Rheoliad 23(4)

Regulation 23(4)

TRAMGWYDDAU STATUDOL A DDIDDYMWYD

REPEALED STATUTORY OFFENCES

1.-(1) Tramgwydd o dan unrhyw un o adrannau canlynol Deddf Tramgwyddau Rhywiol 1956-

1.-(1) An offence under any of the following sections of the Sexual Offences Act 1956-

- (a) adran 1 (trais);
- (b) adran 5 (cyfathrach rywiol â merch o dan 13 oed);
- (c) onid yw paragraff 4 yn gymwys, adran 6 (cyfathrach rywiol â merch o dan 16 oed);
- (ch) adran 19 neu 20 (herwgydio merch o dan 18 neu 16 oed);
- (d) adran 25 neu 26 o'r Ddeddf honno (caniatáu i ferch o dan 13 oed, neu rhwng 13 a 16 oed, i ddefnyddio mangre i gael cyfathrach rywiol);
- (dd) adran 28 o'r Ddeddf honno (peri neu annog puteinio merch o dan 16 oed neu gyfathrach rywiol â hi neu ymosodiad anwedus arni).

- (a) section 1 (rape);
- (b) section 5 (intercourse with a girl under 13);
- (c) unless paragraph 4 applies, section 6 (intercourse with a girl under 16);
- (d) section 19 or 20 (abduction of girl under 18 or 16);
- (e) section 25 or 26 of that Act (permitting girl under 13, or between 13 and 16, to use premises for intercourse);
- (f) section 28 of that Act (causing or encouraging prostitution of, intercourse with or indecent assault on, girl under 16).

(2) Tramgwydd o dan adran 1 o Ddeddf Anweduster â Phlant 1960 (ymddygiad anwedus tuag at blentyn ifanc).

(2) An offence under section 1 of the Indecency with Children Act 1960 (indecent conduct towards young child).

(3) Tramgwydd o dan adran 54 o Ddeddf Cyfraith Troseddau 1977 (ysgogi merch o dan 16 oed i gyflawni llosgach).

(3) An offence under section 54 of the Criminal Law Act 1977 (inciting girl under sixteen to incest).

(4) Tramgwydd o dan adran 3 o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol (Diwygio) 2000 (cam-drin ymddiriedaeth).

(4) An offence under section 3 of the Sexual Offences (Amendment) Act 2000 (abuse of trust).

2. Daw person o fewn y paragraff hwn os cafodd ei gollfarnu o unrhyw un o'r tramgwyddau canlynol yn erbyn plentyn a gyflawnwyd pan oedd yn 18 neu drosodd neu os cafodd rybuddiad gan gwnstabl o ran unrhyw dramgwydd o'r fath, y cyfaddefodd y person i'r tramgwydd pan roddwyd y rhybuddiad -

2. A person falls within this paragraph if he has been convicted of any of the following offences against a child committed at the age of 18 or over or has been cautioned by a constable in respect of any such offence which, at the time the caution was given, he admitted-

- (a) tramgwydd o dan adran 2 neu 3 o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol 1956 (caffael menyw drwy fygwth neu haeru anwir);
- (b) tramgwydd o dan adran 4 o'r Ddeddf honno (rhoi cyffuriau i gael neu hwyluso cyfathrach rywiol);
- (c) tramgwydd o dan adran 14 neu 15 o'r Ddeddf honno (ymosodiad anwedus);
- (ch) tramgwydd o dan adran 16 o'r Ddeddf honno (ymosodiad gyda'r bwriad o gyflawni sodomiaeth);

- (a) an offence under section 2 or 3 of the Sexual Offences Act 1956 Act (procurement of woman by threats or false pretences);
- (b) an offence under section 4 of that Act (administering drugs to obtain or facilitate intercourse);
- (c) an offence under section 14 or 15 of that Act (indecent assault);
- (d) an offence under section 16 of that Act (assault with intent to commit buggery);

- (d) tramgwydd o dan adran 17 o'r Ddeddf honno (herwgwydio menyw drwy rym neu oherwydd ei heiddo);
- (dd) tramgwydd o dan adran 24 o'r Ddeddf honno (dal menyw mewn puteindy neu mewn mangre arall).

3. Daw person o fewn y paragraff hwn os cafodd ei gollfarnu o unrhyw un o'r tramgwyddau canlynol yn erbyn plentyn a gyflawnwyd pan oedd yn 18 neu drosodd neu os cafodd rybuddiad gan gwnstabl o ran unrhyw dramgwydd o'r fath, y cyfaddefodd y person i'r tramgwydd pan roddwyd y rhybuddiad.

- (a) tramgwydd o dan adran 7 o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol 1956 (cyfathrach rywiol â pherson diffygiol) drwy gael cyfathrach rywiol â phlentyn;
- (b) tramgwydd o dan adran 9 o'r Ddeddf honno (caffael person diffygiol) drwy gaffael plentyn i gael cyfathrach rywiol;
- (c) tramgwydd o dan adran 10 o'r Ddeddf honno (llogach gan ddyn) drwy gael cyfathrach rywiol â phlentyn;
- (ch) tramgwydd o dan adran 11 o'r Ddeddf honno (llogach gan fenyw) drwy ganiatáu i blentyn gael cyfathrach rywiol â hi;
- (d) onid yw paragraff 4 yn gymwys, tramgwydd o dan adran 12 o'r Ddeddf honno drwy gyflawni sodomiaeth â phlentyn o dan 16 oed;
- (dd) onid yw paragraff 4 yn gymwys, tramgwydd o dan adran 13 o'r Ddeddf honno drwy gyflawni gweithred o anwedduster garw â phlentyn;
- (e) tramgwydd o dan adran 21 o'r Ddeddf honno (herwgwydio person diffygiol oddi wrth riant neu warcheidwad) drwy ddwyn y plentyn o feddiant ei riant neu warcheidwad;
- (f) tramgwydd o dan adran 22 o'r Ddeddf honno (peri puteinio menywod) o ran plentyn;
- (ff) tramgwydd o dan adran 23 o'r Ddeddf honno (caffael merch o dan 21 oed) drwy gaffael plentyn i gael cyfathrach rywiol â thrydydd person;
- (g) tramgwydd o dan adran 27 o'r Ddeddf honno (caniatáu i berson diffygiol ddefnyddio mangre ar gyfer cyfathrach rywiol) drwy gymell neu ganiatáu i blentyn droi at fangre neu fod mewn mangre at ddibenion cael cyfathrach rywiol;
- (ng) tramgwydd o dan adran 29 o'r Ddeddf honno (peri neu annog puteinio person diffygiol) drwy beri neu annog puteinio plentyn;
- (h) tramgwydd o dan adran 30 o'r Ddeddf honno (dyn yn byw ar enillion puteindra) mewn achos lle bo'r butain yn blentyn;
- (i) tramgwydd o dan adran 31 o'r Ddeddf honno (menyw yn gweithredu rheolaeth dros butain) mewn achos lle bo'r butain yn blentyn;

- (e) an offence under section 17 of that Act (abduction of woman by force or for the sake of her property);
- (f) an offence under section 24 of that Act (detention of woman in brothel or other premises).

3. A person falls within this paragraph if he has been convicted of any of the following offences committed at the age of 18 or over or has been cautioned by a constable in respect of any such offence which, at the time the caution was given, he admitted-

- (a) an offence under section 7 of the Sexual Offences Act 1956 (intercourse with defective) by having sexual intercourse with a child;
- (b) an offence under section 9 of that Act (procurement of defective) by procuring a child to have sexual intercourse;
- (c) an offence under section 10 of that Act (incest by a man) by having sexual intercourse with a child;
- (d) an offence under section 11 of that Act (incest by a woman) by allowing a child to have sexual intercourse with her;
- (e) unless paragraph 4 applies, an offence under section 12 of that Act by committing buggery with a child under the age of 16;
- (f) unless paragraph 4 applies, an offence under section 13 of that Act by committing an act of gross indecency with a child;
- (g) an offence under section 21 of that Act (abduction of defective from parent or guardian) by taking a child out of the possession of her parent or guardian;
- (h) an offence under section 22 of that Act (causing prostitution of women) in relation to a child;
- (i) an offence under section 23 of that Act (procurement of girl under 21) by procuring a child to have sexual intercourse with a third person;
- (j) an offence under section 27 of that Act (permitting defective to use premise for intercourse) by inducing or suffering a child to resort to or be on premises for the purpose of having sexual intercourse;
- (k) an offence under section 29 of that Act (causing or encouraging prostitution of defective) by causing or encouraging the prostitution of a child;
- (l) an offence under section 30 of that Act (man living on earnings of prostitution) in a case where the prostitute is a child;
- (m) an offence under section 31 of that Act (woman exercising control over prostitute) in a case where the prostitute is a child;

- (j) tramgwydd o dan adran 128 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1959 (cyfathrach rywiol â chleifion) drwy gael cyfathrach rywiol â phlentyn;
- (l) tramgwydd o dan adran 4 o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol 1967 (caffael eraill i gyflawni gweithredoedd cyfunrhywiol) drwy-
 - (i) caffael plentyn i gyflawni gweithred o sodomiaeth gydag unrhyw berson; neu
 - (ii) caffael unrhyw berson i gyflawni gweithred o sodomiaeth â phlentyn;
- (ll) tramgwydd o dan adran 5 o'r Ddeddf honno (byw ar enillion puteinio gwrywaidd) drwy fyw yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar enillion puteinio plentyn;
- (m) tramgwydd o dan adran 9(1)(a) o Ddeddf Dwyn 1968 (bwrqleriaeth), drwy fynd i mewn i adeilad neu ran o adeilad gyda'r bwriad o dreisio plentyn.

4. Nid yw paragraffau 1(c) a 3(d) a (dd) yn cynnwys tramgwyddau mewn achos os oedd y tramgwyddwr o dan 20 oed pan gyflawnwyd y tramgwydd.

- (n) an offence under section 128 of the Mental Health Act 1959 (sexual intercourse with patients) by having sexual intercourse with a child;
- (o) an offence under section 4 of the Sexual Offences Act 1967 (procuring others to commit homosexual acts) by-
 - (i) procuring a child to commit an act of buggery with any person; or
 - (ii) procuring any person to commit an act of buggery with a child;
- (p) an offence under section 5 of that Act (living on earnings of male prostitution) by living wholly or in part on the earnings of prostitution of a child;
- (q) an offence under section 9(1)(a) of the Theft Act 1968 (burglary), by entering a building or part of a building with intent to rape a child.

4. Paragraphs 1(c) and 3(e) and (f) do not include offences in a case where the offender was under the age of 20 at the time the offence was committed.

RHAN 1

GWYBODAETH AM Y DARPAR
FABWYSIADYDD

Rheoliad 26(2)

Gwybodaeth am y darpar fabwysiadydd

1. Enw, rhyw, dyddiad a man geni a chyfeiriad gan gynnwys ardal yr awdurdod lleol.
2. Llun a disgrifiad corfforol.
3. A yw domisil neu gartref arferol y darpar fabwysiadydd mewn rhan o Ynysoedd Prydain ac os yw cartref arferol y darpar fabwysiadydd yno, ers pa bryd.
4. Tarddiad hiliol a chefnidir diwylliannol ac ieithyddol.
5. Cred grefyddol, os oes un.
6. Y berthynas â'r plentyn (os oes un).
7. Asesiad o bersonoliaeth a diddordebau'r darpar fabwysiadydd.
8. Os yw'r darpar fabwysiadydd yn briod neu mewn partneriaeth sifil ac os yw'n gwneud y cais ar ei ben ei hun, asesiad o addasrwydd y darpar fabwysiadydd ar gyfer mabwysiadu a'r rhesymau dros hynny.
9. Manylion o unrhyw achosion blaenorol mewn llys teulu y bu'r darpar fabwysiadydd yn cymryd rhan ynddynt.
10. Enwau a chyfeiriadau tri chanolwr a fydd yn rhoi geirada personol am y darpar fabwysiadydd, na chaiff mwy nag un ohonynt fod yn berthynas iddo.
11. Enw a chyfeiriad ymarferydd meddygol cofrestredig y darpar fabwysiadydd, os oes un.
12. O ran y darpar fabwysiadydd -
 - (a) os yw'n briod, dyddiad a man y briodas;
 - (b) os yw wedi ffurfio partneriaeth sifil, dyddiad a man cofrestru'r bartneriaeth honno; neu
 - (c) os oes partner gan y darpar fabwysiadydd, manylion y berthynas honno.
13. Manylion unrhyw briodas, partneriaeth sifil neu berthynas flaenorol.
14. Coeden deulu gyda manylion y darpar fabwysiadydd, ei blant ac unrhyw frodyr a chwiorydd, gyda'u hoedran (neu eu hoedran pan fuont farw).

PART 1

INFORMATION ABOUT PROSPECTIVE
ADOPTER

Regulation 26(2)

Information about the prospective adopter

1. Name, gender, date and place of birth and address including the local authority area.
2. A photograph and physical description.
3. Whether the prospective adopter is domiciled or habitually resident in a part of the British Islands and if habitually resident for how long he or she has been habitually resident.
4. Racial origin and cultural and linguistic background.
5. Religious persuasion, if any.
6. Relationship (if any) to the child.
7. An assessment of the prospective adopter's personality and interests.
8. If the prospective adopter is married or in a civil partnership and is applying alone, an assessment of the prospective adopter's suitability to adopt and the reasons for this.
9. Details of any previous family court proceedings in which the prospective adopter has been involved.
10. Names and addresses of three referees who will give personal references on the prospective adopter, not more than one of whom may be a relative.
11. Name and address of the prospective adopter's registered medical practitioner, if any.
12. If the prospective adopter is-
 - (a) married, the date and place of marriage;
 - (b) has formed a civil partnership, the date and place of registration of that partnership; or
 - (c) has a partner, details of that relationship.
13. Details of any previous marriage, civil partnership or relationship.
14. A family tree with details of the prospective adopter, their children and any siblings, with their ages (or ages at death).

15. Cronoleg o'r darpar fabwysiadydd ers ei eni.

16. Sylwadau darpar fabwysiadydd am ei brofiad am y rhianta a gafodd yn ei blentyndod a sut y dylanwadodd hyn arno.

17. Manylion unrhyw brofiad sydd gan y darpar fabwysiadydd o ofalu am blant (gan gynnwys fel rhiant, llys-riant, rhiant maeth, gwarchodwr plant neu ddarpar fabwysiadydd) ac asesiad o'i allu yn y cyswllt hwnnw.

18. Unrhyw wybodaeth arall sy'n dangos sut y mae'r darpar fabwysiadydd ac unrhyw un arall sy'n byw ar ei aelwyd yn debygol o ymwneud â'r plentyn a leolir ar gyfer ei fabwysiadu gyda'r darpar fabwysiadydd.

Y teulu ehangach

19. Disgrifiad o deulu ehangach y darpar fabwysiadydd a'i rôl a'i bwysigrwydd i'r darpar fabwysiadydd a'i rôl a'i bwysigrwydd tebygol i'r plentyn a leolir ar gyfer ei fabwysiadu gyda'r darpar fabwysiadydd.

Gwybodaeth am gartref y darpar fabwysiadydd etc.

20. Asesiad o gartref a chymdogaeth y darpar fabwysiadydd.

21. Manylion aelodau eraill o aelwyd y darpar fabwysiadydd (gan gynnwys unrhyw blant i'r darpar fabwysiadydd p'un a ydynt yn preswyllo ar yr aelwyd ai peidio).

22. Cymuned leol y darpar fabwysiadydd, gan gynnwys i ba raddau yr integreiddiodd y teulu, grwpiau o gymheiriaid, cyfeillgarwch a rhwydweithiau cymdeithasol y teulu.

Addysg a chyflogaeth

23. Manylion hanes addysg a chyraeddiadau'r darpar fabwysiadydd a sylwadau'r darpar fabwysiadydd ar sut y cafodd hyn ddylanwad.

24. Manylion hanes cyflogaeth y darpar fabwysiadydd a sylwadau'r darpar fabwysiadydd ar sut y cafodd hyn ddylanwad.

25. Cyflogaeth bresennol y darpar fabwysiadydd a'i farn am gyflawni cydbwysedd rhwng cyflogaeth a gofal plant.

Incwm

26. Manylion incwm a gwariant y darpar fabwysiadydd.

15. A chronology of the prospective adopter from birth.

16. The observations of the prospective adopter about their own experience of being parented and how this has been an influence.

17. Details of any experience the prospective adopter has had of caring for children (including as a parent, step-parent, foster parent, child-minder or prospective adopter) and an assessment of their ability in this respect.

18. Any other information which indicates how the prospective adopter and anybody else living in their household is likely to relate to a child placed for adoption with the prospective adopter.

Wider family

19. A description of the wider family of the prospective adopter and their role and importance to the prospective adopter and their likely role and importance to a child placed for adoption with the prospective adopter.

Information about the home of the prospective adopter etc.

20. An assessment of the prospective adopter's home and the neighbourhood of their home.

21. Details of other members of the prospective adopter's household (including any children of the prospective adopter whether or not resident in the household).

22. The local community of the prospective adopter, including the degree of the family's integration, its peer groups, friendships and social networks.

Education and employment

23. Details of the prospective adopter's educational history and attainments and the observations of the prospective adopter about how this has been an influence.

24. Details of the prospective adopter's employment history and the observations of the prospective adopter about how this has been an influence.

25. The current employment of the prospective adopter and their views about achieving a balance between employment and child care.

Income

26. Details of the prospective adopter's income and expenditure.

Gwybodaeth arall

27. Gallu'r darpar fabwysiadydd -
- (a) i rannu hanes geni'r plentyn a materion emosïynol cysylltiedig;
 - (b) deall a chefnogi'r plentyn drwy deimladau posibl o golled a thrawma.
28. O ran y darpar fabwysiadydd -
- (a) ei resymau dros ddymuno mabwysiadu plentyn;
 - (b) ei farn a'i deimladau am fabwysiadu a'i arwyddocâd;
 - (c) ei farn am ei gynneddf i rianta;
 - (ch) ei farn am ei gyfrifoldeb rhiant a'r hyn y mae'n ei olygu;
 - (d) ei farn am amgylchedd cartref addas i blentyn;
 - (dd) ei farn am bwysigrwydd a gwerth addysg;
 - (e) ei farn a'i deimladau ynghylch pwysigrwydd magwraeth grefyddol a diwylliannol plentyn;
 - (f) ei farn a'i deimladau am gyswllt o ran plentyn.

29. Barn aelodau eraill o aelwyd y darpar fabwysiadydd a'r teulu ehangach o ran mabwysiadu.

30. Unrhyw wybodaeth berthnasol arall a allai fod o gymorth i'r panel mabwysiadu neu'r asiantaeth fabwysiadu.

Other information

27. The prospective adopter's capacity to -
- (a) share the child's birth history and associated emotional issues;
 - (b) understand and support the child through possible feelings of loss and trauma.
28. The prospective adopter's -
- (a) reasons for wishing to adopt a child;
 - (b) views and feelings about adoption and its significance;
 - (c) views about their parenting capacity;
 - (d) views about their parental responsibility and what it means;
 - (e) views about a suitable home environment for a child;
 - (f) views about the importance and value of education;
 - (g) views and feelings about the importance of a child's religious and cultural upbringing;
 - (h) views and feelings about contact.

29. The views of other members of the prospective adopter's household and wider family in relation to adoption.

30. Any other relevant information which might assist the adoption panel or the adoption agency.

RHAN 2

Rheoliad 26(3)(a)

GWYBODAETH AM IECHYD Y DARPAR FABWYSIADYDD

1. Enw, dyddiad geni, rhyw, pwysau a thaldra.
2. Hanes iechedd y teulu, sy'n ymwneud â'r rhieni, brodyr a chwiorydd (os oes rhai) a phlant (os oes rhai) y darpar fabwysiadydd, gyda manylion unrhyw salwch corfforol difrifol neu salwch meddwl difrifol a chlefyd neu anhwylder etifeddol.
3. Anffrwythlondeb neu resymau dros beidio â chael plant (os yw'n gymwys).
4. Hanes iechedd yn y gorffennol, gan gynnwys manylion unrhyw salwch corfforol difrifol neu salwch meddwl difrifol, anabled, damwain, derbyn i ysbyty neu fynd i adran cleifion allanol, ac ym mhob achos y driniaeth a gafwyd.

PART 2

Regulation 26(3)(a)

INFORMATION ABOUT THE HEALTH OF THE PROSPECTIVE ADOPTER

1. Name, date of birth, gender, weight and height.
2. A family health history of the parents, the brothers and sisters (if any) and the children (if any) of the prospective adopter, with details of any serious physical or mental illness and inherited and congenital disease.
3. Infertility or reasons for deciding not to have children (if applicable).
4. Past health history, including details of any serious physical or mental illness, disability, accident, hospital admission or attendance at an out-patient department, and in each case any treatment given.

5. Hanes obstetrig (os yw'n gymwys).
6. Manylion unrhyw salwch presennol, gan gynnwys y driniaeth a'r prognosis.
7. Archwiliad meddygol llawn.
8. Manylion o unrhyw yfed alcohol a all beri pryder neu a yw'r darpar fabwysiad yd yn ysmegu neu'n defnyddio cyffuriau sy'n creu caethiwed.
9. Unrhyw wybodaeth berthnasol arall y mae'r asiantaeth yn ystyried a all gynorthwyo'r panel.
10. Llofnod, enw, cyfeiriad, a chymwysterau'r ymarferydd meddygol cofrestredig a baratôdd yr adroddiad, dyddiad yr adroddiad a'r archwiliadau a wnaed ynghyd ag enw a chyfeiriad unrhyw feddyg arall a all roi gwybodaeth bellach am unrhyw rai o'r materion uchod.

ATODLEN 5

Rheoliad 32(1)

GWYBODAETH AM Y PLENTYN I'W RHOI I DDARPAR FABWYSIADYDD

1. Manylion am y plentyn.
2. Llun a disgrifiad corfforol.
3. Manylion am amgylchiadau teuluol y plentyn ac amgylchedd y cartref, gan gynnwys manylion am deulu'r plentyn (rhieni, brodyr a chwiorydd ac eraill sy'n arwyddocaol).
4. Cronoleg o ofal y plentyn.
5. Ymddygiad y plentyn, sut y mae'r plentyn yn rhyngweithio â phlant eraill ac yn dod ymlaen gydag oedolion.
6. A yw'r plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ac, os felly, y rheswm pam y mae'r plentyn i'w leoli ar gyfer mabwysiadu.
7. Manylion hanes lleoli'r plentyn gan gynnwys y rhesymau pam os na lwyddodd unrhyw leoliad.
8. Manylion cyflwr iechyd y plentyn, hanes ei iechyd ac unrhyw angen am ofal iechyd a all godi yn y dyfodol.
9. Manylion hanes addysgol y plentyn, a chrynodeb o gynnydd y plentyn hyd yn hyn ac os cafodd ei asesu neu os yw'n debygol o gael ei asesu ar gyfer anghenion addysgol arbennig o dan Ddeddf Addysg 1996.

5. Obstetric history (if applicable).
6. Details of any present illness, including treatment and prognosis.
7. A full medical examination.
8. Details of any consumption of alcohol that may give cause for concern or whether the prospective adopter smokes or uses habit-forming drugs.
9. Any other relevant information which the agency considers may assist the panel.
10. The signature, name, address and qualifications of the registered medical practitioner who prepared the report, the date of the report and of the examinations carried out together with the name and address of any other doctor who may be able to provide further information about any of the above matters.

SCHEDULE 5

Regulation 32(1)

INFORMATION ABOUT THE CHILD TO BE GIVEN TO THE PROSPECTIVE ADOPTER

1. Details of the child.
2. Photograph and physical description.
3. Details of the child's family circumstances and home environment, including details of the child's family (parents, siblings and significant others).
4. Chronology of the child's care.
5. The child's behaviour, how the child interacts with other children and relates to adults.
6. Whether the child is looked after by the local authority and, if so, the reasons and why the child is to be placed for adoption.
7. Details of the child's placement history including reasons for any placement breakdowns.
8. Details of the child's state of health, health history and any need for health care which might arise in the future.
9. Details of the child's educational history, a summary of the child's progress to date and whether assessed or likely to be assessed for special educational needs under the Education Act 1996.

10. Dymuniadau a theimladau'r plentyn hyd y gellir eu canfod mewn perthynas â mabwysiadu, a chyswllt â rhiant y plentyn, ei warcheidwad, perthynas iddo neu berson arall arwyddocaol.

11. Dymuniadau a theimladau rhiant y plentyn, ei warcheidwad, perthynas iddo neu berson arall arwyddocaol o ran mabwysiadu a chyswllt.

12. Sylwadau'r person y mae'r plentyn yn byw gydag ef ynghylch mabwysiadu.

13. Asesiad o anghenion y plentyn ar gyfer gwasanaethau cymorth mabwysiadu a chynigion yr asiantaeth i ddiwallu'r anghenion hynny.

14. Cynigion yr asiantaeth i ganiatáu cyswllt rhwng unrhyw berson â'r plentyn.

15. Yr amserlen arfaethedig ar gyfer lleoli.

16. Unrhyw wybodaeth arall y mae'r asiantaeth yn ystyried sy'n berthnasol.

10. The child's ascertainable wishes and feelings in relation to adoption, and contact with the child's parent, guardian, relative or other significant person.

11. The wishes and feelings of the child's parent, guardian, relative or other significant person in relation to adoption and contact.

12. The views of the person with whom the child is living about adoption.

13. The assessment of the child's needs for adoption support services and the agency's proposals for meeting those needs.

14. The agency's proposals for allowing any person contact with the child.

15. The proposed time-scale for placement.

16. Any other information which the agency considers relevant.

ATODLEN 6

SCHEDULE 6

Rheoliad 36(2)

Regulation 36(2)

CYNLLUN LLEOLIAD

PLACEMENT PLAN

1. Statws y plentyn a ph'un a leolwyd ef o dan orchymyn lleoliad neu gyda chydysyniad ei rieni gwaed.

2. Y trefniadau ar gyfer paratoi'r plentyn a'r darpar fabwysiadydd ar gyfer y lleoliad.

3. Y dyddiad y bwriedir lleoli'r plentyn i'w fabwysiadu gyda'r darpar fabwysiadydd.

4. Y trefniadau ar gyfer adolygu'r lleoliad.

5. A fwriedir cyfyngu ar gyfrifoldeb rhiant y darpar fabwysiadydd ac os felly i ba raddau y bydd y cyfyngu.

6. Y gwasanaethau cymorth mabwysiadu y mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu eu darparu ar gyfer y plentyn a'r teulu mabwysiadol, sut y darperir hwy a chan bwy (os yw'n gymwys).

7. Y trefniadau a wnaeth yr asiantaeth fabwysiadu er mwyn caniatáu cyswllt â'r plentyn i unrhyw berson, ffurf y cyswllt a'r trefniadau ar gyfer cefnogi cyswllt ac enw a manylion cyswllt y person sy'n gyfrifol am hwyluso'r trefniadau cyswllt (os yw'n gymwys).

8. Y dyddiad pan roddir llyfr stori bywyd a llythyr am fywyd yn nes ymlaen i'r darpar fabwysiadydd neu i'r plentyn.

1. Status of the child and whether placed under a placement order or with the consent of the birth parents.

2. The arrangements for preparing the child and the prospective adopter for the placement.

3. Date on which it is proposed to place the child for adoption with the prospective adopter.

4. The arrangements for review of the placement.

5. Whether parental responsibility of the prospective adopter for the child is to be restricted and if so the extent to which it is to be restricted.

6. The adoption support services the local authority has decided to provide for the child and the adoptive family, how these will be provided and by whom (if applicable).

7. The arrangements which the adoption agency has made for allowing any person contact with the child, the form of contact this will be and the arrangements for supporting contact and the name and contact details of the person responsible for facilitating the contact arrangements (if applicable).

8. The date on which the life story book and later life letter is to be passed to the prospective adopter or the child.

9. Manylion unrhyw drefniadau y mae angen eu gwneud.

10. Manylion cyswllt gweithiwr cymdeithasol y plentyn, gweithiwr cymdeithasol y darpar fabwysiaddd a chysylltiadau y tu allan i oriau.

9. Details of any arrangements that need to be made.

10. Contact details of the child's social worker, the prospective adopter's social worker and out of hours contacts.